

Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor

Adroddiad cyntaf y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd
ar ran Llywodraeth Cymru

Hydref 2019

Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor

Adroddiad cyntaf y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar ran Llywodraeth Cymru, Hydref 2019

Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (y Grŵp Gweithredu) i argymhell y camau y mae angen eu cymryd i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gofynnodd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, i'r Grŵp Gweithredu ateb y cwestiynau canlynol:

1. Pa fframwaith o bolisiau, dulliau gweithredu a chynlluniau sydd ei angen i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru? (Beth mae dod â digartrefedd i ben yn ei olygu mewn gwirionedd?)
2. Pa gamau y gallwn eu cymryd ar unwaith i leihau nifer yr achosion o gysgu allan rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diwedd ar gysgu allan yn gyfan gwbl?
3. Sut y gallwn sicrhau bod y broses o ailgartrefu pobl yn gyflym ac yn barhaol wrth wraidd y gwaith o atal, trechu a dod â digartrefedd i ben?
4. Sut y gallwn sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig lleol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal, trechu a dod â digartrefedd i ben ledled Cymru?

Hwn yw adroddiad cyntaf y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ac mae'n mynd i'r afael â chwestiwn 2. Rydym wedi rhannu ein hargymhellion yn gamau gweithredu tymor byr iawn i'w cymryd rhwng nawr a gaeaf 2019/20; ac yn gamau gweithredu i atal cysgu allan yn llwyr.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd cyfrifoldebau a ddatganolwyd ond, yn anochel, ceir rhai argymhellion lle bydd angen i wasanaethau nas datganolwyd, megis yr heddlu, cyfiawnder troseddol neu les, gymryd camau gweithredu, ac mae'r argymhellion yn nodi sut y gellid gwneud hyn.

Aelodau'r Grŵp

- Jon Sparkes (cadeirydd) – Prif Weithredwr, Crisis
- Bonnie Navarra – Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu a Throseddau De Cymru, sydd wedi cael ei secondio i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Clare Budden – Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Clarissa Corbisiero – Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Frances Beecher – Prif Weithredwr, Llamau, a Chadeirydd End Youth Homelessness Cymru
- Gaynor Toft, Rheolwr Corfforaethol (Tai), Cyngor Sir Ceredigion
- Glynne Roberts – Rheolwr Rhaglenni, Gogledd Cymru Well North Wales, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- John Puzey – Prif Weithredwr, Shelter Cymru
- Katie Dalton – Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru
- Lindsay Cordery-Bruce – Prif Weithredwr, The Wallich
- Naomi Alleyne – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dr Peter Mackie – Darllenydd, Prifysgol Caerdydd
- Tamsin Stirling – Arbenigwraig llawrydd ar ddigartrefedd a thai

Crynodeb o'n hargymhellion

Mae'r adran hon yn nodi'r prif argymhellion sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau sydd eu hangen. Noder bod yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â *sut* y gellir sicrhau'r canlyniadau hyn a pha unigolion neu sefydliadau a ddylai arwain y gwaith o'u cyflawni.

Lleihau nifer yr achosion o gysgu allan yn y tymor byr iawn (mae argymhellion 1-4 yn ymwneud yn bennaf â'r pedair ardal 'â blaenoriaeth')

Argymhelliad 1: Sicrhau bod digon o weithwyr allgymorth grymusol sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn cael eu defnyddio, a grymuso gweithwyr allgymorth i allu helpu pobl i symud i ffwrdd o gysgu allan ac i mewn i lety a thai argyfwng priodol o ansawdd da, dros dro neu barhaol, ar y cyfle cyntaf posibl.

Argymhelliad 2: Sicrhau y gall pobl sy'n cysgu allan gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt drwy fynd i'r afael â rhwystrau a chamddealltwriaethau sy'n atal hyn rhag digwydd ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys atal rhai cyfreithiau neu reoliadau'n wirfoddol ar unwaith, yn y byrdymor neu'n barhaol, tra bydd y sefyllfa reoliadol a deddfwriaethol yn cael ei hystyried yn llawn. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cyflawni eu hymrwymiaidau i gefnogi pobl sy'n cysgu allan.

Argymhelliad 3: Sicrhau bod atebion amgen brys a dros dro i gysgu allan ar gael, gyda'r adnoddau sydd eu hangen, a darpariaeth amrywiol, er mwyn sicrhau'r effaith a'r urddas mwyaf posibl.

Argymhelliad 4: Dylai cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ddefnyddio eu hadnoddau ar y cyd i sicrhau bod cymaint o gartrefi cymdeithasol â phosibl yn cael eu gosod ar rent i aelwydydd digartref, yn enwedig unigolion a fyddai fel arall yn cysgu allan.

Argymhelliad 5: Dylai pobl a sefydliadau sy'n cyfathrebu'n gyhoeddus am ddigartrefedd gytuno ar ddull cyffredin o fynegi eu hunain, cyfleu negeseuon a galw am weithredu ar ddigartrefedd. Bydd hyn yn helpu'r cyhoedd a gwirfoddolwyr i gael syniad cliriach ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud yn y byrdymor er mwyn helpu pobl sy'n cysgu allan neu sy'n ddigartref, a'r hyn y gallant ei wneud yn y tymor hwy i helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Atal cysgu allan

Argymhelliad 6: Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sicrhau bod gan bawb sy'n cael ei ryddhau o sefydliad cyhoeddus ateb cynaliadwy o ran tai.

Argymhelliad 7: Lle y nodir bod pobl yn wynebu risg o ddigartrefedd, ac yn y pen draw, cysgu allan, mae angen gweithredu dull 'dim drws anghywir' (a chyfeiriad o leiaf at gymorth tai).

Argymhelliad 8: Cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) ddylai gael eu mabwysiadu fel y dull arferol o gefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu gysgu allan a dylid ei sicrhau drwy broses drosiannol ailgartrefu'n gyflym.

Argymhelliad 9: Dylid dod i gytundeb i sicrhau dim troi allan o dai cymdeithasol (na thai sy'n cael cymorth arian cyhoeddus) i ddigartrefedd, a bod mwy o dai'n cael eu dyrannu ar gyfer aelwydydd digartref.

Argymhelliad 10: Dylid dileu'r rhwystrau a mynd i'r afael â'r camddealltwriaethau sy'n atal pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n cysgu allan rhag cael gafael ar yr angen dynol sylfaenol am dai digonol a chymorth.

Argymhelliad 11: Dylid comisiynu gwasanaethau allgymorth a gwasanaethau eraill i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan er mwyn hyrwyddo atebion estynedig sy'n helpu pobl i ddianc rhag cysgu allan a digartrefedd am byth.

Argymhelliad 12: Mae angen i fetrigau cenedlaethol a lleol a phrosesau casglu data gael eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi'r uchelgais i ddileu cysgu allan yn gyfan gwbl ac atal digartrefedd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

Sut mae'r Grŵp Gweithredu yn mynd ati

Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae'r Grŵp Gweithredu yn mynd ati'n gyffredinol i ymgymryd â'i waith ac ateb y cwestiynau ynghylch cysgu allan a ofynnwyd gan y Gweinidog.

Aelodau'r Grŵp

Gweithiodd cadeirydd y grŵp a'r Gweinidog gyda'i gilydd i wahodd aelodau i ymuno â'r grŵp. Mae'r cadeirydd wedi cael profiad blaenorol o gadeirio grŵp tebyg ar ran Llywodraeth yr Alban ac mae'n arwain sefydliad sy'n gweithio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae aelodaeth y Grŵp Gweithredu yn cynrychioli amrywiaeth eang o gefndiroedd sefydliadol a phroffesiynol. Mae pob aelod unigol yn cynnig cyfuniad o wybodaeth, arbenigedd o Gymru a thu hwnt, cysylltiadau cryf â'r gwasanaethau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt, a rhwydweithiau sy'n cynnwys pobl y mae angen i'r Grŵp Gweithredu gael eu mewnbwn.

Camau'r Grŵp Gweithredu i ddatblygu'r argymhellion

1. Ar y cychwyn, cytunodd y Grŵp Gweithredu y byddai amrywiaeth o dystiolaeth yn sail i bob un o'r argymhellion. Rydym hefyd wedi seilio ein hargymhellion ar y gred nad oes neb yng Nghymru am fyw mewn cymdeithas lle mae nifer bach ond cynyddol o'n dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed yn gorfod cysgu ar y stryd. Byddem i gyd yn awyddus i weld ein cymdeithas yn sicrhau bod angen sylfaenol pawb am dai a chymorth yn cael ei ddiwallu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysgu allan a'r niwed y mae hyn yn ei achosi wedi mynd yn argyfwng dyngarol y mae'n rhaid i wasanaethau ac unigolion, gan gynnwys y sefydliadau y mae aelodau'r Grŵp Gweithredu yn gweithio iddynt, fynd i'r afael ag ef a'i drechu.
2. Dechreuodd y Grŵp Gweithredu drwy adolygu'r dystiolaeth bresennol ynglŷn â rhoi terfyn ar ddigartrefedd, gan gynnwys gwaith y grŵp yn yr Alban¹; yr adolygiad gan Mackie et al ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio o ran rhoi terfyn ar gysgu allan;² ac adroddiad Crisis ynglŷn â sut i roi terfyn ar bob math o ddigartrefedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.³
3. Gwnaethom nodi profiadau'r Grŵp Gweithredu a thu hwnt o weithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 a phwysigrwydd newid y diwylliant er mwyn cyflawni cyfradd atal gyson o ran opsiynau/atebion tai/gwasanaethau yng Nghymru.⁴ Yn yr un modd, bydd angen proses gynhwysol a chydgyhyrchiol o wneud polisi ynglŷn â digartrefedd ar gyfer y newidiadau a argymhellir gan yr adroddiad hwn, gan adeiladu ar yr hyn a

¹ Llywodraeth yr Alban, tudalen we'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a Chysgu Allan:

<https://www.gov.scot/groups/homelessness-and-rough-sleeping-action-group/>

² Mackie, P., Johnsen, S., a Wood, J. (2017) *Ending rough sleeping: what works? An international evidence review*. Crisis: Llundain

³ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

⁴ Stirling, T. (2017) Homelessness: changing the law, changing the culture. Blog Welsh Housing Quarterly, 8 Awst 2017 <https://www.whq.org.uk/2017/08/08/homelessness-law-culture/>

weithiodd wrth weithredu'r Ddeddf ond hefyd gymryd y cam nesaf i atal digartrefedd, sef ei wneud yn fater gwasanaeth cyhoeddus.⁵

4. Roedd y grŵp yn awyddus iawn i glywed gan bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd. Rhoddodd Tamsin Stirling o'i hamser i adolygu adroddiadau ymchwil perthnasol o'r ddwy flynedd ddiwethaf ar ran y Grŵp Gweithredu er mwyn dwyn ynghyd y casgliadau, yn enwedig profiadau pobl y mae digartrefedd wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ychwanegodd y grŵp at y rhain drwy ymgynghoriad ar ymchwil gan gymheiriaid sy'n parhau, wedi'i arwain gan Shelter Cymru a chan gydweithio'n agos ag aelodau'r grŵp. Cyflwynir y canfyddiadau cychwynol isod a chyfeirir atynt drwy'r adroddiad cyfan hwn.
5. Mae'r grŵp hefyd yn parhau i ymgynghori â phobl sy'n gweithio ym maes tai a digartrefedd yng Nghymru o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys gwasanaethau statudol, tai a chymorth. Cyflwynir y canfyddiadau cychwynol isod a chyfeirir atynt drwy'r adroddiad cyfan hwn.
6. Mae wedi cyfarfod bob tair wythnos mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, o fewn sefydliadau aelodau o'r Grŵp Gweithredu, er mwyn myfyrio ar ganfyddiadau ein gwaith sy'n dod i'r amlwg, datblygu'r argymhellion drwy broses iterus a'u mireinio.
7. Mae'n gweithio mewn ffordd dryloyw, gan gynnwys drwy'r ymgynghoriadau a'r cyfarfodydd ar wahân â rhanddeiliaid. Aeth y cadeirydd ati i gyhoeddi'r diweddaraf ar flog ar wefan Crisis o fewn 24 awr i bob cyfarfod. Rhannwyd y blogiau ar y cyfryngau cymdeithasol gennym ac anfonodd aelodau'r Grŵp Gweithredu y wybodaeth ddiweddaraf at eu rhwydweithiau.
8. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar helpu pobl sydd eisoes yn cysgu allan ac yna'n ystyried sut i atal cysgu allan. Bydd y gwaith yn y dyfodol yn cael ei wneud ar gamau cynharach o'r broses, lle mae modd atal digartrefedd, pan fo pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a mathau eraill o lety ansefydlog neu anniogel. Ar gyfer ein holl waith byddwn yn defnyddio'r deipoleg pum categori o atal sy'n cynnwys gweithio ar lefel gyffredinol (gweithio gyda'r boblogaeth gyfan i atal digartrefedd); targedu (canolbwyntio ar grwpiau sy'n wynebu risg neu ar adegau pontio allweddol yn eu bywydau), argyfwng (atal digartrefedd ar adeg risg tua 56 diwrnod, sef y ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru), achos brys (y rhai sy'n wynebu risg uniongyrchol, yn enwedig risg o gysgu allan) ac adfer (atal cysgu allan a digartrefedd mynych).⁶
9. Mae'r Grŵp Gweithredu yn dadlau'n gryf o blaid monitro a gwerthuso'r holl argymhellion hyn yn erbyn canlyniadau er mwyn llywio arfer da ledled Cymru.

Tystiolaeth gan bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd neu sy'n gweithio mewn rolau cymorth

Mae'r grŵp yn ymgynghori â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o bob math o ddigartrefedd ochr yn ochr â phobl sy'n gweithio mewn lleoliadau statudol a gwirfoddol mewn rolau tai a digartrefedd.

Bydd y prosesau ymgynghori hyn yn parhau yn ystod gaeaf 2019/20 ynghyd â gwaith y Grŵp Gweithredu, a fydd yn ymdrin â chysgu allan ac yna ddigartrefedd yn fwy cyffredinol.

⁵ Connell, A. (2017) *The development and implementation of Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014: Lessons for Policy and Practice in Wales*. Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru

<http://ppi.w.org.uk/files/2017/07/PPIW-Homelessness-Policy-Reunion-Report-July-2017-final.pdf>

⁶ Fitzpatrick, S., Mackie, P., a Wood, J. (2019) *Homelessness Prevention in the UK – Policy Briefing*, t.3 <http://thinkhouse.org.uk/2019/cache0719a.pdf>

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd a'r bobl sy'n gweithio mewn rolau tai a chymorth sydd wedi ymateb i'r arolygon hyd yma.

Wrth ymgynghori hyd yma, rydym wedi gweithredu fel a ganlyn:

- Dechrau'n eang, gan ddefnyddio arolygon i holi pobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio mewn rolau tai a chymorth i bobl ddigartref am eu profiadau a'r atebion i ddigartrefedd a ffefrir ganddynt hwy.
- Ar gyfer pob arolwg, cafodd yr atebion yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio eu rhestru a'u mapio yn erbyn pedwar cwestiwn y Grŵp Gweithredu a, lle y bo modd, roeddent yn adlewyrchu'r cwestiynau yn y ddwy set o arolygon.
- Ar gyfer yr ymgynghoriad â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol, roedd y gwaith maes yn cynnwys dau arolwg ar lwyfan Survey Monkey (yn Gymraeg ac yn Saesneg), a lanswyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Medi 2019. Anfonodd aelodau'r Grŵp Gweithredu a'u cysylltiadau y dolenni i'r arolygon, gan hwyluso ymatebion gan bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd. Gwnaeth grŵp bach o ymchwilyr sy'n gymheiriaid, a drefnwyd gan Shelter Cymru, gynnal yr arolwg gyda gwasanaethau opsiynau/atebion tai mewn nifer o leoliadau yng Nghymru.
- Defnyddiwyd dull tebyg ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes tai a digartrefedd ond dim ond ar-lein yr ymgynghorwyd ar y cam cyntaf. Roedd gan y rhan fwyaf o aelodau'r Grŵp Gweithredu gydweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n dod i gysylltiad â chleientiaid ac aeth rhai aelodau ati'n benodol i sicrhau bod eu haelodau/cydweithwyr yn cymryd rhan, yn enwedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymorth a Llamau.

Ar gyfer y ddau ymgynghoriad, y camau nesaf fydd casglu'r themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn yr arolygon ac adrodd yn ôl i grwpiau o bobl a ymatebodd yn uniongyrchol neu sy'n meddu ar brofiad a gwybodaeth berthnasol. Byddwn yn trafod y themâu'n fanylach ac yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn adroddiadau arfaethedig y Grŵp Gweithredu ond cafodd y dystiolaeth a gyflwynir yma ei chasglu rhwng 16 Medi a 30 Medi 2019.

Dangosodd y ddau ymgynghoriad mai'r atebion a gafodd eu blaenoriaethu fwyaf gan bobl oedd y rhai a oedd yn ymwneud â'r materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â chael gafael ar lety argyfwng a llety parhaol addas; a sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gael ynghyd â gweithio amlasiantaethol.

Themâu allweddol gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol:

- Cawsom 149 o ymatebion, yr oedd dros hanner ohonynt (54%) wedi cael profiad o ddigartrefedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae dros 50 y cant o'r ymatebwyr yn byw yn y mathau 'llai sefydlog/diogel o lety' (hostel, lleoliad adsefydlu, llety dros dro ac ati) ac mae gan 45 y cant 'eu cartref eu hunain' (perchnogion, sector rhentu preifat, tai cymdeithasol ac ati). Dim ond 10 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt byth yn poeni am eu sefyllfa o ran cael cartref i fyw ynddo.
- Cynigiodd yr arolwg restr o atebion polisi sy'n ymwneud â phob un o'r cwestiynau perthnasol y mae'r Grŵp Gweithredu yn eu hateb. O ran cysgu allan, y ddau ateb cyntaf a gafodd eu blaenoriaethu oedd darparu llety argyfwng y gellir cael gafael arno heb rwystrau (dewisodd 57% o'r bobl yr ateb hwn fel eu blaenoriaeth uchaf); a newid y rheolau ynglŷn â chysylltiad lleol er mwyn sicrhau y gall pobl gael gafael ar gymorth lle bynnag y bo'i angen arnynt. Mewn ymatebion ar ffurf sylwadau agored cafwyd consensws mai'r atebion canlynol y dylid eu blaenoriaethu: cynyddu faint o dai

diogel, fforddiadwy sydd ar gael; gwella llety argyfwng; a gwella'r ffordd y caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu trin.

Themâu allweddol gan bobl sy'n gweithio ym maes tai a digartrefedd:

- O blith y 177 o ymatebion i'r arolwg hyd yma, roedd dros hanner gan bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n ddigartref (53%) ac roedd eraill yn rheoli gwasanaeth (33%), ac roedd gweddill yr ymatebion gan bobl mewn rolau strategaeth/cynllunio neu rolau 'eraill'. Hyd yma, mae'r ymatebwyr wedi'u rhannu fwy neu lai'n gyfartal rhwng gwasanaethau statudol, sefydliadau tai, a gwasanaethau'r trydydd sector (rhai wedi'u comisiynu a rhai gwirfoddol).
- Gofynnwyd i ymatebwyr nodi ym mha ran o Gymru y maent yn gweithio. Mae 3 y cant o'r ymatebwyr yn gweithio'n genedlaethol. Yr ardaloedd awdurdod lleol mwyaf cyffredin y mae ymatebwyr yn gweithio ynddynt yw Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Merthyr Tudful.
- Gofynnwyd i ymatebwyr flaenoriaethu 10 ateb polisi a allai eu helpu'n benodol yn eu gwaith i roi terfyn ar bob math o ddigartrefedd a gwneud sylwadau arnynt. Un o'r themâu allweddol oedd mynediad at lety ac roedd tri o'r pum ateb â'r flaenoriaeth uchaf yn ymwneud â hynny.⁷ Roedd atebion eraill yn y pum ateb â'r flaenoriaeth uchaf yn cynnwys rhoi llwybrau atgyfeirio gwell ar waith gyda gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl a defnyddio sylweddau) a chyfnodau cyllido hwy ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu. Ni chafodd yr un o'r 10 ateb sgôr o lai na blaenoriaeth o 70 y cant i gyd am fod 'yn bwysig iawn'/'yn bwysig' ond, yn amlwg, rhoddwyd mwy o flaenoriaeth ar y pum ateb uchaf.
- Rhoddodd yr ymatebwyr flaenoriaeth uwch i ddau ateb i gysgu allan yn benodol o'r rhestr o atebion posibl na'r lleill. Roedd y rhain yn ymwneud â chydweithio rhwng asiantaethau a mynediad amserol at lety argyfwng.⁸ Ymhlith yr atebion eraill a gafodd flaenoriaeth uchel roedd mwy o fynediad at wasanaethau allgymorth cyson a dulliau newydd o leihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol.

⁷ Cwestiwn: 'Wrth feddwl am eich gwaith, pa mor bwysig ydych chi'n credu yw'r atebion canlynol i'ch helpu chi i roi diwedd ar ddigartrefedd yn fwy effeithiol ar gyfer y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw?' gyda rhestr o atebion i'w blaenoriaethu ar raddfa pum pwynt o 'pwysig iawn' i 'Ddim yn bwysig'. Y tri y cyfeiriwyd atynt oedd gwell cyflenwad o dai fforddiadwy; gwell cyflenwad o dai cymdeithasol; a mynediad at lety dros dro addas.

⁸ Yr atebion hyn oedd: 'Gwasanaethau/asiantaethau gwahanol yn cydweithio'n well (e.e. iechyd, gofal a heddlu) ac yn rhannu gwybodaeth i ddeall beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio i unigolion' a 'Sicrhau bod digon o lety argyfwng ar gael, ac y gellir mynd yno yn syth heb rwystrau'. Dywedodd tua 97 y cant o'r ymatebwyr fod y rhain yn bwysig iawn/yn bwysig ar gyfer pob ateb.

Lleihau cysgu allan yn y tymor byr iawn

Nod yr argymhellion hyn yw mynd i'r afael â chysgu allan yn y tymor byr iawn, yn ystod y cyfnod cyn gaeaf 2019/20, a chanolbwyntio ar helpu pobl sydd eisoes yn wynebu argyfwng cysgu allan. Fodd bynnag, yr unig ffordd sicr o roi terfyn ar gysgu allan yw drwy atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf, felly bydd angen ystyried yr argymhellion hyn yng ngoleuni gwaith ehangach y Grŵp Gweithredu yn ystod y misoedd nesaf.

Nid gor-ddweud yw dweud bod Cymru yn wynebu argyfwng cysgu allan, o ystyried bod yr achosion o gysgu allan a gofnodwyd ledled Cymru wedi cynyddu 45 y cant rhwng 2015 a 2018.⁹ Er gwaethaf yr enghreifftiau o arfer da o ran rhoi terfyn ar gysgu allan yng Nghymru, mae'n amlwg nad yw'r dull gweithredu presennol yn llwyddo i leddfu'r pwysau ar bobl sy'n cysgu allan a'u helpu i droi i ffwrdd o'r stryd. Yn ôl y gwerthusiad o Ddeddf Tai 2014 y llynedd, roedd awdurdodau lleol ledled Cymru ar y cyfan o'r farn mai pobl sy'n cysgu allan a oedd wedi cael y budd lleiaf o'r newidiadau i'r gyfraith a'r newid mewn diwylliant i system fwy ataliol.¹⁰

Fel cynigion byrdymor, ni fydd yr argymhellion hyn o anghenraid yn rhan allweddol o'r gwaith diweddarach i weithredu ar ddigartrefedd mewn ffordd fwy strategol. Fodd bynnag, lle y bo modd, rydym yn argymhell dulliau gweithredu a fydd yn rhan o'r ymateb tymor byr iawn i gysgu allan pan fo'n digwydd yn y dyfodol. Nid yw'r argymhellion byrdymor wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth na rheoliadau oherwydd y terfynau amser byr sydd ar gael, ond dylent gael eu hategu drwy gytundeb ynglŷn ag adnoddau ac ymrwymiad gan y llywodraeth ar lefel genedlaethol a lleol ac asiantaethau eraill i weithredu'n gyflym ac yn wirfoddol mewn ymateb i'r argyfwng.

'Ardaloedd â ffocws' yn ystod y gaeaf

Ar gyfer yr argymhellion tymor byr iawn hyn, trafododd y Grŵp Gweithredu a ddylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ond canolbwyntio ar ardaloedd lle ceir y lefelau uchaf o gysgu allan (e.e. Caerdydd, Abertawe, Wrecsam a Chasnewydd) neu gymhwyso'r argymhellion at bob rhan o Gymru. Cytunodd y Grŵp Gweithredu y dylai gymhwyso egwyddor 'cyffrediniaeth gymesur, ac y dylai'r argymhellion gael eu cymhwyso ym mhob rhan o'r wlad. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw adnoddau ychwanegol ganolbwyntio i ddechrau ar ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf, lle y gall yr adnoddau gael yr effaith fwyaf posibl, a lle mae ymrwymiad i ddiwygio'r dulliau gweithredu presennol.

Mewn sawl achos, mae'r adroddiad hwn yn ystyried dulliau gweithredu hysbys a phroffedig ac mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar y ffordd y gellir eu rhoi ar waith yn llawn. Er enghraifft, drwy sicrhau bod allgymorth yn unol â'r diffiniad o 'allgymorth grymusol' o'r dystiolaeth; bod gwaith amlasiantaethol yn digwydd mewn amser real, wedi'i gefnogi gan gynadleddau achos a rhestr o enwau o bobl sy'n cael eu cefnogi; a bod llwybrau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni. Mae'r argymhellion hyn hefyd yn gyfle i roi cynnig ar ffyrdd

⁹ Llywodraeth Cymru (2019), *Cyfrif cenedlaethol o gysgu allan (amcangyfrif dros gyfnod o bythefnos)*, a gyhoeddwyd 21 Mawrth 2016 a 5 Chwefror 2019. Gweler y datganiadau llawn i gael rhagor o fanylion o ganlyniad i'r newidiadau i'r fethodoleg a ddaeth i rym yn 2015.

¹⁰ A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif adroddiad 46/2018, para. 8.54

newydd o weithio, yn ddelfrydol mewn partneriaethau rhwng sefydliadau statudol ac anstatudol, gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli, gan ddwyn arbenigedd ynghyd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ardal benodol.

Mae'n rhaid i'r camau gweithredu byrdymor hyn gael eu gwerthuso er mwyn cael tystiolaeth a gwersi ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio yn y tymor hwy. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i ddangos beth sy'n gweithio, ac i Gymru wneud gwahaniaeth yn ddi-oed i fywydau'r bobl sy'n gorfod cysgu allan ar hyn o bryd.

Ym mhob un o'r pedair ardal â ffocws dylid gweithredu fel a ganlyn:

1. Sicrhau cytundeb ar sail wirfoddol er mwyn cyflawni'r argymhellion hyn a chydgyhyrchu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithredu. Dylai hyn gael ei gefnogi gan adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf ond gallai fod potensial i wasanaethau neu sefydliadau eraill gyfrannu.
2. Ffocws brys gyda rheolwr prosiect arweiniol ym mhob ardal ar waith erbyn canol mis Hydref 2019, yn ddelfrydol aelod presennol o staff sy'n cael ei secondio i'r rôl hon neu benodiad cyfnod penodol am chwe mis. Ffocws y rôl hon fydd cydlynu'r cynadleddau achos dyddiol, rheoli cyllidebau personol a gwerthuso'r canlyniadau ar ddiwedd y gwaith.
3. Mesurau i sicrhau allgymorth grymusol a dull amlasiantaethol. Mae'r argymhellion canlynol yn manylu ar y ffordd y gellir gwneud hyn ond mae angen i bob ardal ddarparu gwasanaethau allgymorth grymusol a all fod yn symudol a hefyd wedi'u lleoli mewn lleoliadau amlasiantaethol presennol lle mae'r rhain yn bodoli eisoes. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth fod ar gael mewn amser real, gan gynnwys dros nos ac ar benwythnosau, gyda chynadleddau achos dyddiol.
4. Mae cytuno ar ganlyniadau ar ddechrau'r gwaith yn hollbwysig ac mae angen mesur nifer y bobl sy'n cael eu cartrefu'n llwyddiannus mewn llety diogel ac urddasol ar gyfer y gaeaf. Y ffocws ar hyn o bryd yw lleihau niwed a meithrin cydberthnasau er mwyn helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd pobl yn y dyfodol agos. Yn ystod gwanwyn 2020 dylai'r rheolwr prosiect sicrhau bod y broses weithredu yn cael ei gwerthuso a'i chyhoeddi, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd ac adroddiadau ar enillion o fuddsoddi.

Er ein bod yn argymhell y dylid canolbwyntio ar yr ardaloedd lle y cofnodir y lefelau uchaf o gysgu allan, dylai pob awdurdod lleol arall ddefnyddio'r argymhellion hyn i hunanasesu eu darpariaeth eu hunain yn ystod y gaeaf hwn; cydweithredu ag awdurdodau lleol cyfagos sydd â chyfraddau cysgu allan uchel, lle y bo angen; a cheisio dysgu o'r gwerthusiad o'r mesurau a roddwyd ar waith yn ystod y gaeaf hwn ar y sail y bydd angen i'r mesurau y gwerthuswyd eu bod yn llwyddiannus gael eu trosi i bob ardal maes o law.

Allgymorth i bobl sy'n cysgu allan

Mae dadansoddiad o bob cyfrif cenedlaethol blynyddol o gysgu allan hyd yma wedi canfod yr hoffai'r mwyafrif llethol o'r bobl ledled Cymru y cofnodwyd eu bod yn cysgu allan gael cymorth (86% o'r ymatebwyr yng nghyfrif 2018). Ac eto, mae'r dadansoddiad mwyaf diweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn argymhell o hyd bod angen gwneud rhagor i roi gwasanaethau ar waith sy'n ymateb i gefnogi pobl ble a phryd y mae eu hangen.¹¹ Dangosodd ein hymgyngoriad â phobl sy'n gweithio mewn rolau digartrefedd a thai fod 91 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod hyn yn rhan bwysig (neu bwysig iawn) o'r ateb.¹²

Mae'r Grŵp Gweithredu yn argymhell yn gryf y dylid mabwysiadu dull 'allgymorth grymusol' sy'n fath o allgymorth ar y stryd, lle y rhoddir gwasanaethau ar y stryd i bobl sy'n cysgu allan. Yn ôl y dystiolaeth, a phrofiad aelodau'r Grŵp Gweithredu, mae'n gweithio:¹³

- Os mai'r prif nod yw rhoi terfyn ar ddigartrefedd ac felly fod opsiynau llety gwirioneddol ac urddasol ar gyfer i bobl a fyddai fel arall yn cysgu allan;
- Os oes cymorth amddisgyblaethol ar gael gan nifer o wasanaethau;
- Os yw'r allgymorth a roddir yn gyson, yn bwrpasol ac yn rymusol.

Nid oes angen i broses o sefydlu tîm allgymorth grymusol newydd gymryd llawer o amser, ar yr amod bod parodrwydd ar bob ochr i weithio mewn partneriaeth. O dan Fenter Gaeaf 2017/18 Llywodraeth yr Alban, er enghraifft, sefydlodd Cyrenians Aberdeen, Cyngor Dinas Aberdeen a'i bartneriaid (megis yr heddlu, bugeiliaid y stryd a'r adran damweiniau ac achosion brys) dîm allgymorth grymusol cyntaf y ddinas o fewn pythefnos a gyda £80,000 o gyllid ychwanegol.¹⁴

Mae angen i weithwyr allgymorth allu helpu pobl ar y stryd yn gyflym. Drwy ddefnyddio cyllideb fach i unigolion, gall gweithwyr allgymorth arfer eu disgrisiwn proffesiynol llawn er mwyn meithrin ymddiriedaeth â phobl sy'n cysgu allan a'u helpu i gael gafaél ar lety argyfwng diogel a phriodol. Mae'n rhaid i hyn fod ar sail 'gwneud dim niwed' ac mae'n rhaid iddo fod yn briodol i'r unigolyn, e.e. dylai gweithwyr allgymorth benderfynu a fyddai darpariaeth gwely a brecwast fyrdymor yn briodol i unigolyn.

Cafodd y dull gweithredu hwn (a elwir yn 'gyllidebau personol') ei dreialu mewn rhannau o Gymru yn ystod 2011-2013 a chafodd ei werthuso'n llawn gan Brifysgol Salford. Canfu'r gwerthusiad lawer o lwyddiannau o ran canlyniadau a oedd yn ymwneud â thai a chanlyniadau ehangach. Roedd gwariant fesul derbynydd yn yr ardaloedd peilot ychydig o

¹¹ Rowlands, B. a Williams, J. (2019), *Analysis of 2 week National Rough Sleeper Count Questionnaires November 2018*. CLILC, Rhwydweithiau Tai Awdurdodau Lleol. Chwefror 2019. <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2182>

¹² Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pwysigrwydd cymharol yr atebion polisi mewn ymateb i 'Wrth feddwl am eich gwaith, pa mor bwysig ydych chi'n credu yw'r atebion canlynol i helpu pobl sydd eisoes yn cysgu ar y stryd?' Yr ateb arfaethedig oedd 'Mwy o fynediad at wasanaethau allgymorth cyson i feithrin ymddiriedaeth ac i feithrin perthnasau, gyda'r nod o helpu pobl i gael tai addas.'

¹³ Mackie, P., Johnsen, S. a Wood, J. (2017) *Ending rough sleeping: what works? An international evidence review*. Llundain: Crisis, t.xvii

¹⁴ Simon Community, Aberdeen Cyrenians a Streetwork (2018), *Views from the frontline – the 2017/18 winter initiative*, tt.20-1

dan £435 ar gyfartaledd.¹⁵ Cafodd ei gyflwyno'n llwyddiannus hefyd fel rhan o Fenter Gaeaf Llywodraeth yr Alban yn 2017-18, y dyrannwyd hyd at £50,000 ar ei gyfer.¹⁶

Er mwyn sicrhau dull gweithredu amlasiantaethol, dylai gwasanaethau ym mhob lle gynnal 'cynadleddau achos' dyddiol i ystyried y rhestrau o'r bobl hynny sy'n cysgu allan yn y ddinas honno neu'r ardal awdurdod lleol honno ar y pryd, a chytuno, ar sail amlasiantaethol, ar y camau i ddiwallu anghenion pob un sy'n cysgu allan ar y diwrnod hwnnw. Bydd angen i'r rheolwr prosiect fod ar gael i gynnal a chydlynu'r gweithgarwch hwn ac mae potensial i gydleoli timau yn y byrdymor a'r tymor hwy er mwyn cefnogi'r ffordd hon o weithio.

Mae angen hefyd i allgymorth ddefnyddio gwaith Cymorth sy'n mynd yn ei flaen ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddiffinio 'allgymorth grymusol' yng nghyd-destun Cymru, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ac ar ddefnyddio dull seicolegol wybodus o helpu pobl i droi i ffwrdd o'r stryd mor fuan â phosibl.

Argymhelliad 1

Sicrhau bod digon o weithwyr allgymorth grymusol sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn cael eu defnyddio, a grymuso gweithwyr allgymorth i allu helpu pobl i symud i ffwrdd o gysgu allan ac i mewn i lety a thai argyfwng priodol o ansawdd da, dros dro neu barhaol, ar y cyfle cyntaf posibl.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y Gweinidog yn cyfarfod ag arweinwyr gwleidyddol a phrif swyddogion perthnasol pob ardal awdurdod lleol lle ceir y cyfraddau cysgu allan uchaf er mwyn cytuno ar ddull gweithredu gwahanol y gaeaf hwn. Dylai'r cyfarfod gytuno ar ddisgwyliadau a negodi'r dull gweithredu (gan gynnwys unrhyw adnoddau ychwanegol) ar gyfer y gaeaf sydd i ddod yn seiliedig ar yr argymhellion hyn. Dylai fod cynllun i weithio yn yr ardaloedd â ffocws hyn er mwyn ymdrin ag unrhyw amrywio o ran ymarfer ac adnoddau, a chyflwyno arfer da ar raddfa fwy ymhob un o'r ardaloedd â ffocws.
- Rhoi'r diffiniadau o allgymorth sy'n 'rymusol', 'wedi'u hyfforddi'n dda' a 'digonol' i bob awdurdod lleol a'i bartneriaid, a hynny ar sail y gwaith a arweinir gan Cymorth ac ymdrin ag unrhyw hyfforddiant a datblygiad cenedlaethol sydd eu hangen er mwyn mabwysiadu'r argymhelliad hwn. Mae hyn yn debyg i argymhelliad pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol y llynedd ynglŷn ag allgymorth grymusol.¹⁷
- Sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cynnal ymarfer mapio brys i hunanasesu mynediad at allgymorth sy'n unol â'r diffiniadau uchod; ac asesu a mynd i'r afael â nifer y gweithwyr allgymorth a ddefnyddir o'u cymharu â nifer y bobl sy'n cysgu allan ym mhob ardal, gan roi rhywfaint o ystyriaeth i effaith amgylcheddau gwledig/trefol a lefelau cymhlethdod ac angen y bobl sy'n cysgu allan mewn lleoedd gwahanol.

Dylai awdurdodau lleol yn yr ardaloedd â ffocws wneud y canlynol:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y pedair elfen a grybwyllir yn gynharach yn yr adroddiad hwn ar waith: cytundeb lleol gwirfoddol â phartneriaid; rheolwr prosiect; ymateb allgymorth grymusol amlasiantaethol i gysylltu pobl â llety diogel ac urddasol; a monitro/gwerthuso canlyniadau).

¹⁵ Brown, P. (2013) *Right time, right place? An evaluation of the Individual Budget approach to tackling rough sleeping in Wales*. Prifysgol Salford.

¹⁶ Llywodraeth yr Alban (2018), *HARSAG Winter Initiative – Executive Summary*, para. 18

¹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.65

- Defnyddio'r diffiniadau a'r ymarfer mapio i nodi'n gyflym a oes unrhyw fylchau mewn darpariaeth a sicrhau yr ymdrinnir â'r rhain fel mater o frys. Dylai hyn adeiladu ar y gwaith mapio diweddar a wnaed gan The Wallich fel rhan o ddatblygu'r Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd.
- Grymuso gweithwyr allgymorth drwy roi cyllidebau personol iddynt, gan nodi'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot yng Nghymru a menter gaeaf yr Alban yn 2017/18.
- Trefnu cynadleddau achos amlasiantaethol dyddiol drwy gydol y gaeaf, gan gynnwys trafod y rhestr o bobl y mae pob gwasanaeth yn gweithio i'w cefnogi, trafod llety gwag sydd ar gael, a phobl a all symud ymlaen o ddarpariaeth argyfwng.
- Fel rhan o hyn, dylai gwasanaethau allgymorth ymweld â llochesi nos a ddarperir gan grwpiau ffydd i drefnu cymorth, cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl y gaeaf, a helpu pobl i symud i lety mwy parhaol os oes modd. Mae hyn yn unol â'r argymhelliad trawsbleidiol yn adroddiad pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol yn 2018 ar gysgu allan.¹⁸
- Yn seiliedig ar y cyllid a'r llety a ddarperir, dechrau datblygu llwybrau 'beth bynnag mae'n rhaid ei wneud' er mwyn helpu pobl i ffwrdd o'r strydoedd, gan ddefnyddio allgymorth grymusol, cyllidebau personol ac ati. Er y bydd y cymorth yn benodol i bob unigolyn mae amgylchiadau cyffredin eang y gall gwasanaethau eu defnyddio i dywys y llwybrau hyn, e.e. i bobl sydd wedi bod yn cysgu allan am gyfnod estynedig o amser; i bobl sy'n gadael sefydliadau megis carchardai ac ysbytai; ac i bobl sydd ar fin wynebu risg o gysgu allan neu sydd ond wedi dechrau cysgu allan yn ddiweddar. Gall y rhain fod yn sail i waith amlasiantaethol yn y dyfodol.

Dileu'r rhwystrau i gymorth

Gall y cyfreithiau, y rheoliadau a'r protocolau presennol, megis cysylltiad lleol, bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol fod yn rhwystr i roi cymorth effeithiol, hyd yn oed os nad hynny oedd y bwriad. Gall hyn ddigwydd oherwydd y ffyrdd y mae'r polisiau a'r cyfreithiau wedi cael eu llunio ond hefyd yn dibynnu pa mor dda y cânt eu rhoi ar waith.

Yn ein harolwg gyda phobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd, diwygio'r rheolau ynglŷn â chysylltiad lleol fel y gall pobl gael cymorth lle mae ei angen arnynt oedd yr ateb i gysgu allan a gafodd y flaenoriaeth uchaf ond un.¹⁹ Canfu ein harolwg gyda phobl sy'n gweithio ym maes digartrefedd a thai nad oedd pobl yn y rolau hyn yn rhoi cymaint o flaenoriaeth i'r newid hwn ag atebion eraill (ond eto dywedodd bron 65% o'r ymatebwyr y byddai'n bwysig iawn/yn bwysig gwneud y newid hwn). Fodd bynnag, awgrymodd ymatebion ar ffurf sylwadau agored gan bobl sy'n gweithio yn y rolau hyn eu bod yn cytuno bod cymhwyso'r rheol ynglŷn â chysylltiad lleol yn broblem. Nododd un sylw: "Nid yw cysylltiad lleol yn ffactor i gael cymorth o dan y Ddeddf, y broblem yw bod cysylltiad lleol yn un o amodau gwasanaethau a gomisiynwyd yn lleol."

¹⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.49

¹⁹ Yr ateb oedd 'Dim ond pobl sydd â chysylltiad â'r ardal lle maent yn gofyn am gymorth sy'n gallu cael mathau penodol o gymorth. Gallen newid y rheolau hyn fel y gall pobl gael gafael ar gymorth lle mae ei angen arnynt yn hytrach nag yn ei awdurdod lleol 'cartref'. Roedd yr ateb a gafodd y flaenoriaeth uchaf yn ymwneud â gwell mynediad at lety argyfwng.

Canfu'r gwerthusiad o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fod awdurdodau lleol gwahanol yn cymhwyso'r rheolau, megis 'cysylltiad lleol', mewn ffyrdd gwahanol a bod angen dull mwy hyblyg o roi cymorth a oedd yn ystyried yr anghenion cymhleth a oedd gan bobl sy'n cysgu allan yn aml.²⁰ Mewn astudiaeth o ardaloedd lle y ceir cyfraddau uwch o gysgu allan, canfu Shelter Cymru fod penderfyniadau ar angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol a bwriadoldeb "yn cael eu crybwyll yn fynych" fel rhwystrau i roi terfyn ar ddigartrefedd. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth hefyd ei bod yn bosibl bod dealltwriaeth pobl sy'n cysgu allan a gweithwyr cymorth o'r cysyniadau cyfreithiol yn "anghyflawn".²¹

Mae tystiolaeth ryngwladol hefyd yn awgrymu bod modelau gwasanaeth a ariennir yn lleol, megis y rhai yng Nghymru, yn debygol o arwain at osod cyfyngiadau ar y rhai heb gysylltiad lleol, ac argymhellodd adroddiad gan Brifysgol Caerdydd ddulliau gweithredu amgen.²² Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ymhlith y pleidiau yn adroddiad pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol yn 2018 ar gysgu allan o blaid mesurau i fynd i'r afael â rhwystrau cyfreithiol, atgyfnerthu canllawiau a chael gwared yn raddol ar y prawf angen blaenoriaethol.²³

Yn fwy cyffredinol, ceir potensial i ymdrin â chyfreithiau ac agweddau ehangach sy'n rhwystro dull o atal digartrefedd a chysgu allan ar ffurf trawswasanaeth cyhoeddus. Mae Deddf Crwydradaeth 1824, a mesurau ymddygiad gwrthgymdeithasol megis Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus, yn cael eu defnyddio o hyd yng Nghymru a Lloegr i 'symud pobl ymlaen' i ffwrdd o ffynonellau o gymorth ac weithiau i mewn i weithgareddau mwy peryglus neu droseddol er mwyn goroesi. Er bod y defnydd a wneir o'r Ddeddf Crwydradaeth yn amrywio ledled Cymru a Lloegr, roedd ardal Heddlu De Cymru ymhlith y pum ardal uchaf o ran euogfarnau o dan y Ddeddf Crwydradaeth yn 2018.²⁴

Mae angen rhoi terfyn ar farwolaethau ymhlith pobl sy'n ddigartref fel mater o frys. Yn ôl data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae nifer y marwolaethau wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru (a Lloegr) ac un o'r prif ffactorau a oedd yn ysgogi hyn oedd marwolaethau a oedd yn ymwneud â chyffuriau.²⁵ Yn ein hymgynghorriad â phobl sy'n gweithio mewn rolau tai a digartrefedd, dywedodd 86 y cant o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig iawn neu'n bwysig cyflwyno "Dull newydd i leihau'r peryg o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol (e.e. defnyddio mwy ar ystafelloedd diogel i ddefnyddio cyffuriau/i gyfnewid nodwyddau a defnyddio tai gwlyb sy'n caniatáu yfed alcohol etc.)." Gwnaeth ymatebwyr sylwadau hefyd ar bwysigrwydd cysylltu'r ddarpariaeth hon â gwasanaethau cymorth ac mai dim ond lle mae'n briodol i'r unigolion (h.y. ddim yn cartrefu pobl yn y ddarpariaeth hon os nad oedd am fod yno) y dylid ei defnyddio. Argymhellodd y Cyngor Cyngorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau amlasiantaethol yn seiliedig ar dystiolaeth yn ddiweddar hefyd, gan gynnwys mentora gan gymheiriaid ac allgymorth, triniaethau amnewid opiod, a theilwra gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n benodol i helpu pobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd.²⁶

²⁰ A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif adroddiad 46/2018, para. 8.54

²¹ Shelter Cymru (2018), *Trapped on the Streets*, t.12

²² Mackie, P. a Thomas, I. (2016) *Transitory single homelessness in Wales*, p. 7

²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.25-6

²⁴ Morris, N. (2019), *Scrap the Act: the case for repealing the Vagrancy Act (1824)*. Crisis: Llundain.

²⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019), *Deaths of homeless people in England and Wales: 2018*. Cyhoeddwyd 1 Hydref 2019.

²⁶ Llythyr gan y Cyngor Cyngorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau at Ysgrifennydd Cartref y DU, Re: ACMD Report - Drug-related harms in homeless populations and how they can be reduced.

Argymhelliad 2

Sicrhau y gall pobl sy'n cysgu allan gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt drwy fynd i'r afael â rhwystrau a chamddealltwriaethau sy'n atal hyn rhag digwydd ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys atal rhai cyfreithiau neu reoliadau'n wirfoddol ar unwaith, yn y byrdymor neu'n barhaol, tra bydd y sefyllfa reoliadol a deddfwriaethol yn cael ei hystyried yn llawn. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cyflawni eu hymrwymiaidau i gefnogi pobl sy'n cysgu allan.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ysgrifennu at arweinwyr a phrif swyddogion awdurdodau lleol perthnasol mewn ardaloedd â ffocws er mwyn egluro'r sefyllfa gyfreithiol bresennol a'r cyfeiriad polisi; a chyfarfod ag arweinwyr ac uwch-swyddogion ym mhob awdurdod lleol â ffocws er mwyn cytuno ar y ffordd y byddant yn gweithredu yn ystod y gaeaf hwn. Dylai hyn gynnwys cynnig o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n barod i dreialu atal y darpariaethau sy'n ymwneud â bwriadoldeb a chysylltiad lleol i bobl sy'n cysgu allan.
- Gweithio gyda heddluoedd a phartneriaid eraill yn yr Uned Cydgysylltu Polisi er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn yn y dull gweithredu sy'n cynnwys cynadleddau achos amlasiantaethol yn Argymhelliad 1 a'r rhesymeg dros gymryd rhan. Ym mhob ardal, dylai asiantaethau lleol weithio gyda'i gilydd i roi cymorth i bobl yn hytrach na 'symud pobl ymlaen' heb unrhyw gymorth. Mae hyn yn cynnwys cytundeb i atal y defnydd o'r Ddeddf Crwydradaeth yn wirfoddol y gaeaf hwn ac adolygu unrhyw Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus presennol neu arfaethedig a fydd yn effeithio ar bobl sy'n cysgu allan.
- Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau ac ardal heddlu a'i Chomisiynydd Heddlu a Throseddau er mwyn treialu dull lleihau niwed manylach o gefnogi pobl sy'n cysgu allan ac sydd hefyd yn defnyddio cyffuriau.
- Sicrhau bod y Gweinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno ag arweinwyr Byrddau Iechyd Lleol y bydd staff iechyd yn rhan o'r gwaith amlasiantaethol y gaeaf hwn ac yn cytuno ar y rhesymeg dros gymryd rhan ar sail llesiant. Defnyddio'r gwaith cynnar hwn fel sail i ail-hyrwyddo'r broses o gyflwyno protocolau rhyddhau o'r ysbyty yn y dyfodol.²⁷
- Gwerthuso'n annibynnol effaith yr argymhellion hyn, pan gânt eu cyflawni, er mwyn llywio penderfyniadau polisi mwy parhaol ar lefel awdurdod lleol neu genedlaethol yng Nghymru.

Dylai awdurdodau lleol mewn ardaloedd â ffocws wneud y canlynol:

- Cytuno i atal dulliau gweithredu megis 'bwriadoldeb' a 'cysylltiad lleol' i bobl sy'n cysgu allan.
- Trin pobl sy'n cysgu allan, neu sy'n wynebu risg uniongyrchol o gysgu allan, yn awtomatig fel Angen Blaenoriaethol.

Dyddiedig 19 Mehefin 2019;

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/810284/Drug-related_harms_in_homeless_populations.pdf

²⁷ Bradley, J a Hobbs, R (2014) *Hospital Discharge Protocol for Homeless People in Wales*. Grŵp Cynghori ar Iechyd Pobl Ddigartref

http://www.publichealthnetwork.cymru/files/5214/4613/4011/Hospital_Discharge_Protocol_for_Homeless_People_in_Wales_John_Bradley_Rhiannon_Hobbs_2014.pdf

- Ceisio cytundeb gan yr heddlu, lle mae pobl yn cysgu allan, mai'r ymateb fydd gweithio gydag asiantaethau lleol i gael y cymorth sydd ei angen, yn hytrach na symud pobl ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cynadleddau achos amlasiantaethol ac, os bydd yr heddlu yn dod ar draws rhywun sy'n cysgu allan, cysylltu â'r tîm allgymorth lleol ar unwaith ac aros gyda'r unigolyn sy'n cysgu allan er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel nes bod y tîm allgymorth yn cyrraedd.

Dylai heddluoedd wneud y canlynol:

- Atal yn wirfoddol y defnydd o'r Ddeddf Crwydradaeth a'r defnydd o bwerau gorfodi heb roi unrhyw gymorth ac, yn lle hynny, cymryd rhan mewn trefniadau amlasiantaethol ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn helpu pobl i symud i ffwrdd o gysgu allan.

Llety argyfwng yn ystod y gaeaf

Mae llawer o enghreifftiau o bobl sy'n cael eu gorfodi i ddewis cysgu allan am fod y ddarpariaeth mewn argyfwng yn cael ei hystyried yn beryglus neu'n is na safon urddas dynol, a hynny'n gwbl ddealladwy. Clywsom ddadleuon cryf, wrth ymgynghori â phobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd a chan weithwyr proffesiynol, y dylai mynediad at lety argyfwng (a thai) fod yn un o'r blaenoriaethau uchaf.

Yn ystod gaeaf 2017-18 roedd prinder llety argyfwng a llety diogel yn ffactorau ysgogi allweddol i bobl gysgu allan. Argymhellodd pobl sy'n gweithio ym maes digartrefedd hefyd fod angen i'r llety presennol gael ei reoli mewn ffordd fwy strategol yn hytrach na chael ei ddefnyddio ar y sail 'y cyntaf i'r felin' yn unig.²⁸ Mewn astudiaeth werthuso, dywedodd ymatebwyr a oedd wedi gadael y carchar fod cysylltiad rhwng aildroseddu a'u statws llety, yn enwedig y ffordd roedd "opsiynau o ansawdd gwael" yn cynyddu eu risg.²⁹

Dylai darparu llety argyfwng yn ystod y gaeaf fod yn argymhelliad tymor byr iawn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gair 'argyfwng' beidio â bod yn gyfystyr â llety anaddas, anniogel neu anurddasol o ansawdd gwael. Ni ddylai gynnwys pebyll, podiau na strwythurau dros dro, arwynebedd llawr na chyfleusterau 'eistedd i fyny'. Ni ddylai ychwaith gael ei gynnig yn lle tai diogel a sefydlog â chymorth.

Mae rhwydwaith End Rough Sleeping Cymru yn datblygu safonau llety argyfwng a ddylai fod yn feincnod cenedlaethol ar gyfer llety byrdymor diogel ac urddasol addas. Yn y cyfamser, cyn y cyhoeddir y safonau, dylai darparwyr asesu darpariaeth gan ddefnyddio egwyddorion llety argyfwng da y mae'r rhwydwaith wedi'u cyd-gynhyrchu â phobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd.

Argymhelliad 3

Sicrhau bod atebion amgen brys a dros dro i gysgu allan ar gael, gyda'r adnoddau sydd eu hangen, a darpariaeth amrywiol, er mwyn sicrhau'r effaith a'r urddas mwyaf posibl.

²⁸ Shelter Cymru (2018), *Trapped on the Streets*, t.9 <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Trapped-on-the-Streets-Full-Report.pdf>

²⁹ A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif adroddiad 46/2018, para. 6.1.4

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Mabwysiadu'r safonau ar gyfer llety argyfwng, pan gânt eu cyhoeddi, fel meincnod cenedlaethol.
- Cysylltu â phrifysgolion a sefydliadau addysg yn yr ardaloedd awdurdod lleol a dargedir er mwyn chwilio am lety myfyrwyr gwag fel llety argyfwng i bobl a fyddai fel arall yn cysgu allan ac, os oes angen, trefnu i gontractwr baratoi'r llety i'w adfer i'w ddefnydd presennol ar ôl y gaeaf.
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau tai ar sail argyfwng (gweler Argymhelliad 4).

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Gan ddefnyddio'r safonau llety argyfwng fel man cychwyn, gofyn i Benaethiaid timau Opsiynau/Atebion Tai arwain y gwaith o asesu'r cyflenwad a'r galw tebygol am lety argyfwng y gaeaf hwn, a sicrhau bod mwy o leoedd neu fod llety yn cael ei addasu yn y byrdymor lle y bo angen. Dylai hyn hefyd gwmpasu amrywiaeth (h.y. sicrhau darpariaeth ar gyfer dynion/menywod, pobl sengl/cyplau, sych/gwlyb) ac urddas, a fydd yn rhoi'r cyfle gorau posibl i bobl sy'n cysgu allan symud i ffwrdd o'r stryd yn gyflym. Bydd yn cynnwys gofynion, megis manau storio diogel i bobl sy'n aros yn y llety.
- Ystyried y cydbwysedd rhwng darpariaeth statudol a'r cyflenwad ehangach o ddarpariaeth gan grwpiau ffydd a darpariaeth gymunedol ac elusennol, gan gydgyssylltu'n agos â phartneriaid megis Housing Justice Cymru. Dylai'r gwaith hwn sicrhau bod y grwpiau hyn yn ymwybodol o'r cyfeiriad strategol cyffredinol i leihau'r achosion o gysgu allan a chyflwyno atebion yn seiliedig ar dai, ac yn rhan o'r broses o'i bennu.
- Ystyried unrhyw addasiadau i 'stoc' llety argyfwng presennol a fyddai'n helpu'r stoc i gyrraedd safonau llety argyfwng, e.e. mesurau preifatrwydd ychwanegol neu fannau storio diogel.
- Sicrhau llety gwirfoddol yn y byrdymor, os oes ei angen, gan brifysgolion a cholegau, hosteli a llety gwyliau, neu fusnesau eraill, ar yr amod ei fod yn cyrraedd safonau End Rough Sleeping Cymru a'i fod yn llety argyfwng addas i'r unigolion dan sylw.

Cyfraniad tai cymdeithasol tuag at leihau achosion o gysgu allan yn y byrdymor

Cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sy'n berchen ar stoc sy'n darparu'r rhan fwyaf o dai â chymorth yng Nghymru, gan gynnwys unedau hostel ac unedau Tai yn Gyntaf.³⁰ Mae nifer o brosiectau Tai yn Gyntaf newydd yn cael eu datblygu gan gymdeithasau tai, ac mae dyrannu rhagor o stoc yn cael ei ystyried.³¹ Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae potensial i'r sector gyfrannu yn y byrdymor, nid fel ymyrraeth systemig ond er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng cysgu allan.

³⁰ Ipsos MORI, Imogen Blood & Associates a'r Bartneriaeth Tai a Chymorth (2016), Adolygiad o lety â chymorth

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/572454/rr927-supported-accommodation-review.pdf

³¹ Gweler cyfeiriadau ar sleidiau cyflwyno at Is-grŵp Rheoli Tai Rhwydwaith Tai yn Gyntaf: https://www.cymorthcymru.org.uk/files/1815/6329/4549/The_Role_of_Social_Landlords_Harry_McKeown_Pobl_Julian_Price_United_Welsh_-_Housing_First_Wales_conference_Cymorth_Cymru.pdf

Bydd angen i hyn gael ei gefnogi mewn ffordd fwy cytbwys, nid yn unig darparu tai ond y cymorth i rywun gael llety a'i gynnal mewn lleoliad cymunedol sy'n ei helpu i symud i ffwrdd o ddigartrefedd. Yn y tymor hwy, mae hyn yn ymwneud â maint a dyraniad y grant tai cymdeithasol a chyflwyno cymorth tai.

Mae potensial ar sail argyfwng i helpu awdurdodau lleol sy'n berchen ar stoc a chymdeithasau tai i gytuno, ar sail gynaliadwy, i osod nifer cynyddol o eiddo i aelwydydd digartref a fyddai fel arall yn dod o dan bolisi allgau eu cofrestr dai gyffredin leol. Fodd bynnag, dylid hefyd adolygu prosesau dyrannu tai cymdeithasol ledled Cymru fel rhan o broses o leddfu ac atal cysgu allan yn y tymor hwy, fel yr argymhellwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 4

Dylai cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ddefnyddio eu hadnoddau ar y cyd i sicrhau bod cymaint o gartrefi cymdeithasol â phosibl yn cael eu gosod ar rent i aelwydydd digartref, yn enwedig unigolion a fyddai fel arall yn cysgu allan.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Hwyluso trafodaeth â Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol sy'n dal stoc, er mwyn nodi ardaloedd a dargedir a hwyluso trafodaethau rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i nodi cymorth a thai ychwanegol a dargedir er mwyn cefnogi angen mewn argyfwng.
- Cysylltu â'r bobl berthnasol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (a'r Ganolfan Byd Gwaith) i gytuno ar fesurau atal/lleddfu digartrefedd llwybr carlam fel y gall budd-dal tai barhau os bydd pobl yn symud i ddarpariaeth tai fyrdymor. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes yn gwneud gwaith yn Lloegr o dan ei dyletswydd i gyfeirio yn Neddf Lleihau Digartrefedd 2018 a gallai hyn gael ei estyn ar sail wirfoddol i Ganolfannau Byd Gwaith yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r defnydd o Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r Gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Dylai Cartrefi Cymunedol Cymru a CLILC wneud y canlynol:

- Arwain y gwaith gyda chymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i'w helpu i ymateb yn gyflym i'r angen mewn argyfwng ar bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg uniongyrchol.

Awdurdodau lleol a phartneriaid darparu tai a chymorth:

- Fel rhan o'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014, dylai awdurdodau lleol hysbysu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn eu hardaloedd am natur y tai sydd eu hangen a'r lefel.
- Cytuno ar sail achosion unigol ac yn gysylltiedig â chynadleddau achos amlasiantaethol pan benderfynir mai ailgartrefu unigolion mewn eiddo o'r fath yw'r opsiwn gorau.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid lleol a'r cyhoedd yn deall pam bod pobl sy'n agored iawn i niwed yn cael eu hailgartrefu cyn pobl eraill oherwydd y risgiau os na chymerir y cam hwn.
- Cyfrannu at y bartneriaeth, yn enwedig yn y gwaith o gynllunio a darparu cymorth i'r unigolyn gael tenantiaeth a'i chynnal.

- Helpu pobl i wneud ceisiadau am gyllid yn ôl disgrisiwn i'w helpu i gael eu hailgartrefu.

Ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a gweithredu

Awgrymodd tystiolaeth o arolygon yn ystod gaeaf 2018 ar ran Crisis nad yw'r mwyafrif o oedolion ledled Cymru (59%) a Phrydain gyfan yn gwybod beth i'w wneud os gwelant rywun sy'n ddigartref.³² Dim ond lleiafrif o oedolion yng Nghymru mewn arolwg gwahanol yn ddiweddar oedd yn cofio clywed am atebion hirdymor i gysgu allan (18%), er bod cyfran lawer mwy o oedolion wedi dweud eu bod wedi clywed am lefelau cynyddol o ddigartrefedd a chysgu allan (67%).³³

Mae hyn yn ategu canfyddiadau ymchwil gan Sefydliad FrameWorks i'r cyfryngau a dealltwriaeth y cyhoedd o achosion digartrefedd a'r atebion iddo, a ganfu hefyd fod syniadau'r cyhoedd yn seiliedig ar gamddeall achosion digartrefedd a'r atebion iddo. Caiff camddealltwriaeth o'r fath ei hatgyfnerthu gan negeseuon a thrafodaethau cyhoeddus am ddigartrefedd.³⁴ Yn seiliedig ar y data o arolygon arbrofol, mae Sefydliad FrameWorks yn argymhell newidiadau i'r negeseuon a gyfleir ar hyn o bryd er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y problemau a'r atebion i ddigartrefedd³⁵

Bydd yr argymhelliad hwn yn helpu i harneisio ewyllys da ac ymdrechion pobl a sefydliadau sydd am helpu pobl sy'n cysgu allan. Er y byddai'n dechrau fel argymhelliad byrdymor dylai barhau yn y tymor hwy, yn enwedig er mwyn helpu aelodau o'r cyhoedd i gyfrannu at gamau gweithredu strategol a fydd yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y pen draw.

Yn seiliedig ar y ffaith y caiff llawer o'r argymhellion tymor byr iawn hyn eu cyflawni ar sail 'wirfoddol' gan wasanaethau mae angen cynnwys pob un o adrannau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, awdurdodau lleol, darparwyr tai, a grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd fel cyfranogwyr yn yr ymgyrch hon, er mwyn cymryd y camau a nodir yn yr adroddiad hwn ac annog y cyhoedd i fod yn ymwybodol a chymryd camau buddiol.

Argymhelliad 5

Dylai pobl a sefydliadau sy'n cyfathrebu'n gyhoeddus am ddigartrefedd gytuno ar ddull cyffredin o fynegi eu hunain, cyfleu negeseuon a galw am weithredu ar ddigartrefedd. Bydd hyn yn helpu'r cyhoedd a gwirfoddolwyr i gael syniad cliriach

³² YouGov Plc (2018) Cyfanswm maint y sampl oedd 2,031 o oedolion. Gwnaed gwaith maes rhwng 14 a 15 Tachwedd 2018. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioliadol o holl oedolion Prydain Fawr (18 oed a hŷn). Cwestiwn: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol? Datganiad: "Nid wyf yn gwybod fel arfer beth dylwn i ei wneud i helpu pan welaf rywun sy'n ddigartref"

³³ nfpSynergy (2019), *Celtic Charity Awareness Monitor*, Mehefin 2019, gan nfpSynergy for Crisis. Sylfaen: 1,000 o oedolion 16 oed a hŷn, Cymru

³⁴ O'Neil, M., Gerstein Pineau, M., Kendall-Taylor, N., Volmert, D., Stevens, A. (2017) *Finding a Better Frame: How to Create More Effective Messages on Homelessness in the United Kingdom*. Sefydliad FrameWorks.

³⁵ Nichols, J., Volmert, A., Busso, D., Gerstein Pineau, M., O'Neil, M. a Kendall-Taylor, N. (2018) *Reframing Homelessness in the United Kingdom: A FrameWorks MessageMemo*. Sefydliad FrameWorks.

ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud yn y byrdymor er mwyn helpu pobl sy'n cysgu allan neu sy'n ddigartref, a'r hyn y gallant ei wneud yn y tymor hwy i helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Fel rhan o hyn dylai partneriaid wneud y canlynol:

- Cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan adeiladu ar yr ymgyrch ddiweddar, 'Chwarae Eich Rhan', a arweiniwyd gan Cymorth, ymgyrchoedd diweddar gan Lywodraeth Cymru, a grŵp cyfathrebu Rhwydwaith Tai yn Gyntaf. Dylai ddefnyddio dirnadaethau a thystiolaeth ynglŷn â chyfleu digartrefedd a dealltwriaeth y cyhoedd o ddigartrefedd yng Nghymru.
- Pennu amcanion ar gyfer yr ymgyrch er mwyn newid agweddau'r cyhoedd ac ymddygiad y cyhoedd tuag at bobl sy'n ddigartref a helpu'r cyhoedd i gymryd camau i roi terfyn ar ddigartrefedd. Dylai pobl deimlo eu bod yn ymwybodol o'r camau gweithredu y gallant eu cymryd yn y byrdymor a'r tymor hwy ac yn cael eu hysgogi i'w cymryd. Ar adegau allweddol yn yr ymgyrch dylai partneriaid fonitro a gwerthuso yn erbyn yr amcanion hyn.
- Hyrwyddo rhyngweithio dynol, caredigrwydd a thosturi rhwng pobl sy'n ddigartref a'r cyhoedd, busnesau a phobl eraill.
- Annog dulliau gweithredu gan grwpiau ffydd ac yn y gymuned a fydd yn helpu pobl i ddianc rhag digartrefedd yn y byrdymor a'r tymor hwy.

Atal cysgu allan

Dylid darllen yr argymhellion hyn ar y cyd â'r argymhellion blaenorol ar gyfer lleihau achosion o gysgu allan yn y byrdymor yn y cyfnod cyn gaeaf 2019-20. Dylai llawer o'r argymhellion tymor byr iawn hynny barhau fel y ffordd o gefnogi pobl sydd eisoes yn cysgu allan ar unrhyw adeg benodol.

Dylid hefyd ddarllen yr argymhellion hyn ar atal cysgu allan y tu hwnt i'r tymor byr iawn ar y cyd â'r argymhellion arfaethedig gan y Grŵp Gweithredu ar atal digartrefedd. Bydd yr argymhellion arfaethedig yn symud o'r adeg argyfwng pan fydd rhywun yn dechrau cysgu allan a chwmpasu'r pum categori o atal a grybwyllir yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae'r argymhellion hyn hefyd yn adeiladu ar y strategaethau digartrefedd lleol presennol ac yn anelu at atal digartrefedd o dan Ddeddf Tai 2014.

Yn y pen draw, dim ond drwy sicrhau bod pob math o ddigartrefedd yn brin (yn cael ei atal cymaint â phosibl), am gyfnod byr (yr ymatebir iddo'n gyflym) ac na fydd yn digwydd eto (yn dod i ben mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau mai profiad unwaith ac am byth ydyw bob amser) y gallwn roi terfyn ar gysgu allan.

Gweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus

Mae pobl yn parhau i fynd yn ddigartref ac yn gorfod cysgu allan ar ôl treulio amser yn sefydliadau'r wladwriaeth, megis carchardai, y lluoedd arfog, a'r GIG a systemau gofal cymdeithasol. Mewn llawer o achosion, mae pobl wedi cael eu rhyddhau i sefyllfa uniongyrchol o ddigartrefedd y gellir ei osgoi, a all fod yn niweidiol iawn i'r unigolyn ac achosi costau ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus (yn ôl un amcangyfrif, os oes rhaid i 30 o bobl gysgu allan am 12 mis mae hyn yn costio £600,000 yn ychwanegol y flwyddyn, gan gynyddu i £1.2 miliwn os bydd yn parhau am ddwy flynedd).³⁶

Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi cytuno ar lwybrau er mwyn i bobl sy'n gadael sefydliadau, megis y carchar, y system gofal, a lleoliadau iechyd, gael eu rhyddhau a bod cartref iddynt fynd iddo. Fodd bynnag, nid ydynt yn gweithio, gan ei bod yn amlwg bod pobl yn dal i gael eu rhyddhau o sefydliadau cyhoeddus heb gartref i fynd iddo a dechrau cysgu allan. Canfu data o holiaduron y cyfrif mwyaf diweddar o gysgu allan yng Nghymru y canlynol:³⁷

- Roedd nifer mawr o bobl a oedd yn cysgu allan wedi bod yn y carchar yn ddiweddar, y rhan fwyaf ohonynt o fewn tair blynedd a 49 y cant o fewn 12 mis.
- Roedd cyfran fawr o bobl wedi bod mewn gofal yn flaenorol ac roedd nifer arwyddocaol wedi bod mewn gofal ac yn y carchar.
- Roedd 37 y cant o bobl wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb gyfeiriad sefydlog, yr oedd llawer ohonynt wedi dechrau cysgu allan unwaith eto.

³⁶ Pleace, N. (2015) *At what cost? An estimation of the financial cost of single homelessness in the UK*. Llundain: Crisis

³⁷ Rowlands, B. a Williams, J. (2019), *Analysis of 2-week National Rough Sleeper Count Questionnaires November 2018*. CLILC, Rhwydweithiau Tai Awdurdodau Lleol. Chwefror 2019. <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2182>

Mae gwerthusiadau penodol wedi argymhell bod angen i'r llwybrau ar gyfer oedolion yn yr ystad ddiogel³⁸ ac ar gyfer lleoliadau iechyd³⁹ gael eu dilyn yn effeithiol o hyd. Mae'r Grŵp Gweithredu yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid sicrhau bod llwybrau yn effeithiol o ran atal pobl rhag cael eu rhyddhau o unrhyw sefydliad cyhoeddus heb gartref i fynd iddo. Gall hyn gynnwys partneriaethau lleol i atal pobl rhag cael eu rhyddhau o sefydliadau cyhoeddus heb gartref i fynd iddo ac, os oes angen, newidiadau i reoliadau neu ddeddfwriaeth sylfaenol.

Argymhelliad 6

Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sicrhau bod gan bawb sy'n cael ei ryddhau o sefydliad cyhoeddus ateb cynaliadwy o ran tai.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Gwerthuso unrhyw wersi a ddysgwyd o'r argymhellion tymor byr iawn yn yr adroddiad hwn a gweithredu arnynt.
- Ystyried cyhoeddi data ar ryddhau i ddigartrefedd o bryd i'w gilydd.
- Gweithio gyda phartneriaid i fapio lle mae adnoddau arbenigol ar gyfer tai a digartrefedd ar waith ac yn gweithio ar gyfer pob llwybr. Byddai hyn yn golygu arbenigwr tai a chymorth, wedi'i leoli mewn gwasanaethau eraill, sy'n gyfrifol ac yn atebol am sicrhau bod anghenion tai yn cael eu hasesu a bod tai addas yn cael eu sicrhau drwy bartneriaid tai. Ymdrin â bylchau mewn adnoddau arbenigol, anelu at ail-hyrwyddo'r llwybrau, a rhoi gwybod am ganlyniadau.
- Cynnwys darpariaeth ar gyfer Ymyriadau Adeg Allweddol i bobl sy'n gadael sefydliadau'r wladwriaeth.⁴⁰
- Monitro effaith y mesurau hyn ac ystyried dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus ehangach i atal pobl rhag cael eu rhyddhau heb gartref i fynd iddo, gan ystyried gwerthusiad o'r 'ddyletswydd i gyfeirio' i gael cymorth tai ar gyfrif cyhoeddus yn Lloegr. Byddai angen proses effeithiol o ddarparu adnoddau a newidiadau i ymarfer pe bai unrhyw newid yn y gyfraith yng Nghymru.

Dylai pob sefydliad cyhoeddus sydd wedi cytuno ar lwybrau wneud y canlynol:

- Cydweithredu ag awdurdodau lleol i ddatrys yr argyfwng cysgu allan ac, yn y tymor hwy, darparu'r llwybrau.

Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud y canlynol:

- Sicrhau bod adnodd penodol ar hyd y llwybr mewn lleoliadau nad ydynt yn dai, gan gynnwys staff sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau atebion tai sy'n gyfrifol am atal/lleddfu digartrefedd.
- Rhoi arbenigedd penodol ar ddigartrefedd a thai yn lleoliadau'r ystad ddiogel ac mewn carchardai i weithio gyda gwasanaethau er mwyn sicrhau bod tai diogel a sefydlog ar gael i bawb sy'n cael eu rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys rolau

³⁸ Madoc-Jones, I., Hughes, C., Dubberley, S., Gorden, C., Washington, Dyer, K., Wilson, F., Ahmed, A., Lockwood, K., Wilding, M. (2018) *Evaluation of homelessness services to adults in the secure estate: Main findings report*, para. 8.2

³⁹ A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018) *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif adroddiad 46/2018, para. 12.34

⁴⁰ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis, t.111

cydgysylltwyr rhwydwaith sy'n anelu at wella cydberthnasau rhwng timau gwasanaethau prawf ac adsefydlu ac opsiynau/atebion tai awdurdodau lleol.

- Rhoi'r llwybr rhyddhau o'r ysbyty ar waith ac ystyried darparu arbenigedd penodol ar ddigartrefedd a thai mewn lleoliadau iechyd, gan ystyried arfer megis y timau Pathway⁴¹ sy'n gweithredu mewn ysbytai mawr; a chynghorwyr tai mewn lleoliadau iechyd eraill, megis swyddogion tai yn Ysbyty Bodelwyddan yn Llanelwy, Caerffili, Ysbyty Sant Cadog yng Nghasnewydd, Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Rhondda Cynon Taf, ac Ysbyty Llandochoau ym Mro Morgannwg.
- Ailystyried ac ailhyrwyddo'r llwybr tai i'r rhai sy'n gadael gofal.⁴²

Mae llawer o arwyddion bod rhywun o bosibl yn wynebu risg o ddigartrefedd a chysgu allan. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r arwyddion hwn a gallu gweithredu arnynt a gallant gynnwys:

- Pobl sy'n aros ar sofffa ffrindiau, teulu neu bobl eraill.
- Aelwydydd sydd ag ôl-ddyledion rhent yn y sector tai cymdeithasol neu breifat.
- Pobl sy'n dod i gysylltiad â gwasanaethau iechyd yn amlach.
- Unigolion sy'n dioddef cam-drin domestig neu'n wynebu risg o gam-drin domestig.
- Plant sy'n cyrraedd yr ysgol mewn trallod neu heb gael bwyd.
- Plant a phobl ifanc sy'n profi sawl math o Brofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a/neu sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau ieuencid.
- Pobl na allant gael arian cyhoeddus oherwydd eu statws dinasyddiaeth.

Mae'r bobl a allai adnabod risg yn cynnwys yr heddlu, landlordiaid, gwasanaethau ieuencid, gweithwyr proffesiynol iechyd, athrawon ac aelodau eraill o staff ysgol. Mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd er mwyn helpu i atal digartrefedd neu ymateb yn gyflym i'r risg o ddigartrefedd.

Nodir llawer o'r camau gweithredu angenrheidiol ar gyfer y grŵp ehangach o weithwyr proffesiynol yn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014, ac mae'r holl gamau gweithredu eisoes yn bosibl. Fodd bynnag, mae achos dros ystyried a ddylai pob corff cyhoeddus a chorff sy'n cael symiau sylweddol o arian cyhoeddus fod â dyletswydd i helpu i atal digartrefedd a chydweithredu i atal a lleddfu digartrefedd a chysgu allan. Mae'r dull gweithredu hwn yn adeiladu ar Argymhelliad 2 a'r syniad o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn 'gwneud beth bynnag mae'n rhaid i wneud' i atal achosion o gysgu allan a'u datrys yn gyflym.

Argymhelliad 7

Lle y nodir bod pobl yn wynebu risg o ddigartrefedd, ac yn y pen draw, cysgu allan, mae angen gweithredu dull 'dim drws anghywir' (a chyfeiriad o leiaf at gymorth tai).

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

⁴¹ Am ragor o wybodaeth, gweler <https://www.pathway.org.uk>

⁴² Y llwybr i'r rhai sy'n gadael gofal:

<https://www.barnardos.org.uk/sites/default/files/uploads/Care%20leavers%20accommodation%20and%20support%20framework%20for%20Wales%20October%202016%20%28PDF%29.pdf>

- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio dull 'holi a gweithredu' mewn ymateb i'r risg o ddigartrefedd ond bod rheoliadau neu ddeddfwriaeth ar gyrff cyhoeddus yn cael eu hystyried yn y tymor hwy. Gweithio gyda phartneriaid ar raglen codi ymwybyddiaeth a gweithredu sydd wedi'i theilwra ar gyfer grwpiau proffesiynol penodol (e.e. meddygon teulu, staff adrannau damweiniau ac achosion brys a staff addysgu) er mwyn eu helpu i ddeall y risgiau a gwybod bod camau gweithredu clir y gallant eu cymryd yn eu rôl/lleoliad mewn ymateb.
- Sefydlu rhaglen hyfforddiant a llesiant cynhwysfawr i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n debygol o adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a chysgu allan.
- Defnyddio strwythurau sy'n bodoli eisoes i gynnwys grŵp ehangach o wasanaethau, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Hyrwyddo un pwynt cyswllt ar gyfer pob ardal i bartneriaid gwasanaethau statudol a phroses atgyfeirio sy'n rhoi digon o wybodaeth i awdurdodau lleol i ymateb.
- Hwyluso cynhadledd amlasiantaethol ar unwaith os bydd rhywun yn wynebu risg uniongyrchol o gysgu allan, gan gynnwys timau tai awdurdodau lleol, asiantaethau digartrefedd lleol, a'r holl bartïon perthnasol eraill, gan sicrhau nad yw'r unigolyn hwnnw yn dechrau cysgu allan.

Sicrhau bod digartrefedd am gyfnod byr ac nad yw'n digwydd eto

Mewn llawer o achosion, yr opsiwn gorau i unigolyn (a'i deulu, os yw'n berthnasol) yw aros yn y cartref lle mae eisoes yn byw a pheidio â mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf, a pheidio ag wynebu risg o ddigartrefedd. Fodd bynnag, mae achosion yn codi lle nad yw hyn yn bosibl nac yn ddymunol (e.e. os oes diogelwch personol rhywun wedi'i beryglu neu os yw mewn perthynas niweidiol), ond dylid ymdrin â'r sefyllfa ar y cyfle cyntaf posibl.

Pan fydd rhywun yn debygol o golli ei gartref mewn gwirionedd, mae angen i'r rhan fwyaf o bobl gael cartref prif ffrwd a pharhaol gyda rhyw lefel o gymorth yn gyflym. Dyna'r hyn y dylid ei dybio fel mater o reol. Mae atal digartrefedd (gan gynnwys drwy gynnal tenantiaeth) a chymorth yn gyson â'r gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud eisoes i atal digartrefedd o dan eu dyletswydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Os oes gan rywun anghenion cymorth, yn enwedig os oes anghenion arbennig o gymhleth (e.e. os oes problem iechyd meddwl sylweddol a dibyniaeth), yna profwyd mai Tai yn Gyntaf yw'r opsiwn cywir. Mae hyn yn tybio bod unrhyw gymorth o dan Tai yn Gyntaf wedi cael ei brofi'n llawn a'i fod yn gyson â'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mewn cyfran fach o achosion, yn bennaf am resymau diogelwch yr unigolyn neu eraill neu drwy ddewis (er enghraifft, i berson ifanc), yna efallai y bydd angen gofal ac atebion tai mwy arbenigol, dros dro neu'n barhaol.

Er bod y dystiolaeth ynghylch Tai yn Gyntaf yn eithriadol o gryf o ran ymyriad sy'n rhoi cymorth tai i'r rhai sy'n cysgu allan, nid yw'n ateb pob problem.⁴³ Mae'n addas i bobl sydd ag anghenion cymorth mwy cymhleth ac mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno yn hollol unol â'r model. Fodd bynnag, ar gyfer grŵp ehangach o bobl sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o

⁴³ Mackie, P., Johnsen, S., a Wood, J. (2017) *Ending rough sleeping: what works? An international evidence review*. Crisis: Llundain, t. xi

ddigartrefedd, gall egwyddor mynediad cyflym at gymorth ac (ail)gartrefu ddigwydd mewn fyrdd gwahanol, megis Ymyriadau ar Adeg Allweddol.⁴⁴

Bydd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn gwneud argymhellion llawn ynglŷn â'r dull gweithredu hwn pan fydd yn ateb Cwestiwn 3, ynghylch sut i sefydlu dull o ailgartrefu'n gyflym ledled Cymru. Fodd bynnag, ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n bwysig dangos pa rôl y gall ailgartrefu'n gyflym ei chwarae o ran rhoi terfyn ar gysgu allan yn benodol.

Argymhelliad 8

Cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) ddylai gael eu mabwysiadu fel y dull arferol o gefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu gysgu allan a dylid ei sicrhau drwy broses trosiannol ailgartrefu'n gyflym.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Rhoi cymorth trosiannol i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trosiannol effeithiol. Bydd angen cymorth ariannol er mwyn helpu pob ardal awdurdod lleol i symud i ffwrdd o'r system bresennol i system a diwylliant newydd sy'n ategu'r gwaith atal presennol. Bydd angen i'r gost hon gael ei modelu fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynlluniau Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym.
- Rhoi arweinyddiaeth genedlaethol ar gyflwyno Tai yn Gyntaf ar raddfa fwy, gan gynnwys sicrhau y cydymffurfir â'r model sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda ac y caiff ei ddefnyddio ar gyfer pob unigolyn y mae angen yr ateb penodol hwn arno.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Llundio Cynllun Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym er mwyn sicrhau nad yw ailgartrefu'n gyflym na Tai yn Gyntaf yn dod yn opsiynau 'ychwanegol' dewisol ond eu bod yn elfennau hanfodol o gynllun tai a digartrefedd lleol, lle y caiff y gwaith o gynllunio a darparu tai ei lywio'n llawn gan y lefel o angen a ragwelir i bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o ddatblygu Cynlluniau Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym yn yr Alban, e.e. mae Rhwydwaith Pobl Ddigartref Glasgow wedi llunio canllawiau ar ddatblygu cynllun trosiannol.⁴⁵ Bydd cynlluniau trosiannol ailgartrefu'n gyflym, o anghenraid, yn cynnwys comisiynu a dadgomisiynu gwasanaethau, o'r rhai sy'n cadw pobl yn ddigartref i'r rhai sy'n symud pobl yn gyflym i atebion tai prif ffrwd. Dylai hyn fod yn dryloyw ac yn strategol, dylai gael ei nodi yn y Cynllun Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym ac ni ddylai gynnwys toriadau mewn gwasanaethau cyn neu yn lle darpariaeth newydd. Y canlyniad yn y pen draw fydd lleihau'r defnydd cyffredinol o lety dros dro ac am faint o amser y mae pobl yn aros ynddo.

Dim troi allan o dai cymdeithasol i ddigartrefedd

⁴⁴ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis, t.111

⁴⁵Canllawiau a thempledi Rhwydwaith Pobl Ddigartref Glasgow ar gyfer Cynlluniau Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym: <https://www.ghn.org.uk/rapid-rehousing-transition-plan/>

Mae ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i achosion o droi allan o dai cymdeithasol yng Nghymru yn dangos bod arfer yn amrywio'n fawr iawn, o 0.0 i 9.9 o achosion o droi allan fesul 1,000 o unedau.⁴⁶ Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi mynegi cefnogaeth o blaid dim troi allan i ddigartrefedd ond mae wedi dweud y bydd angen cynyddu'r gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai a ddarperir er mwyn helpu cymdeithasau tai i gyflawni hyn, ochr yn ochr â gwaith partneriaeth mwy datblygedig rhwng cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth.

Felly, dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyllid y Grant Cymorth Tai er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gomisiynu mwy o wasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai a fydd yn helpu pobl i gynnal tenantiaethau cymdeithasol. Dylai rhagor o hyfforddiant mewn amgylcheddau seicolegol wybodus hefyd fod ar gael i landlordiaid cymdeithasol, yn enwedig o ran eu swyddogaethau rheoli tai er mwyn eu helpu i greu'r amodau a datblygu'r arferion sydd eu hangen i leihau nifer yr achosion o droi allan.

Ar gyfer tai cymdeithasol yn enwedig mae angen setliad newydd. Nododd y Grŵp Gweithredu y drafodaeth ehangach ynglŷn â rheoleiddio yn y maes hwn, e.e. rheoliadau cymdeithasau tai a/neu reoleiddiwr sydd â phwerau i fynd i'r afael â digartrefedd. Fodd bynnag, nododd y Grŵp Gweithredu hefyd bwysigrwydd sicrhau bod pob elfen o'r system yn gweithio er mwyn sicrhau'r canlyniad a ddymunir, sef dim troi allan, a phwysigrwydd gwneud systemau systemig i sicrhau:

- Cyflenwad o stoc dai sy'n fforddiadwy i bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac mewn cymunedau sy'n helpu pobl i adeiladu eu bywydau.
- Prosesau dyrannu sy'n sicrhau bod y stoc dai fforddiadwy ar gael i bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- Mynediad at gymorth i gynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd.

Gellir cysylltu'r newidiadau hyn â'r ymateb i'r adolygiad o'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Er na wrthododd y Grŵp Gweithredu y posibilrwydd y bydd angen rheoliadau yn y tymor hwy, mae'r adroddiad hwn yn argymhell 'cytundeb' rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i fwrw ymlaen â pholisi 'dim troi allan i ddigartrefedd' yn y byrdymor.

Argymhelliad 9

Dylid dod i gytundeb i sicrhau dim troi allan o dai cymdeithasol (na thai sy'n cael cymorth arian cyhoeddus) i ddigartrefedd, a bod mwy o dai'n cael eu dyrannu ar gyfer aelwydydd digartref.

Fel rhan o'r cytundeb hwn:

- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data ar ddyraniadau ac achosion o droi allan, gan gynnwys pobl sy'n wynebu digartrefedd. Gallai hyn fod yn seiliedig ar set ddata CORE yn Lloegr.⁴⁷
- Fel rhan o'r ymateb i'r adolygiad o'r cyflenwad o dai fforddiadwy, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu ffordd newydd o ddyrannu'r grant tai cymdeithasol, sy'n gofyn am ymrwymiad gan landlordiaid cymdeithasol i gyfrannu at roi terfyn ar

⁴⁶ Opinion Research Services (2019) *Deall achosion o droi allan o dai cymdeithasol yng Nghymru*; https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/deall-achosion-droi-allan-dai-cymdeithasol-yng-nghymru_0.pdf

⁴⁷Data CORE: <https://core.communities.gov.uk/>

ddigartrefedd. Gallai hyn gynnwys mesurau i gynyddu dyraniadau i bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd a lleihau a dileu achosion o droi allan i ddigartrefedd.

- Dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddyrannu tai a dileu unrhyw rwystrau sy'n atal aelwydydd digartref rhag cael tai cymdeithasol. Cafodd y nod hwn gefnogaeth drawsbleidiol yn adroddiad pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol yn 2018 ar gysgu allan.⁴⁸ Dylai pob ardal hefyd geisio pennu polisi dyrannu cyffredin ochr yn ochr â datblygu arfer da o ran dyrannu.
- Dylai landlordiaid cymdeithasol fabwysiadu dull seicolegol wybodus o gyflawni eu swyddogaethau rheoli tai a chael mynediad at gymorth arbenigol gan ddarparwyr eraill.
- Dylai pawb gytuno ar fesurau i symud pobl ymlaen mewn ffordd reoledig (drwy gynnal cynadleddau achos gydag awdurdodau lleol) os mai er budd pennaf unigolion y dylent symud ymlaen o'r cartref a ddyrannwyd iddynt yn flaenorol, gan sicrhau nad ydynt yn wynebu risg o ddigartrefedd.
- Dylai pawb gytuno ar ddefnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai i ddiwallu anghenion cymorth penodol a dylai llywodraethau ystyried dyletswyddau neu glustnodi cyllid yn benodol er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyllideb y Grant Cymorth Tai er mwyn sicrhau bod mwy o wasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai ar gael i leihau nifer yr achosion o droi allan o dai cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys rhoi cymorth dwys i bobl a fyddai fel arall yn wynebu'r risg fwyaf o gael eu troi allan.
- Os na fydd mesurau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atgyfnerthu partneriaethau i leihau achosion o droi allan i ddigartrefedd a'u dileu yn arwain at leihad, yna dylent dderbyn dyletswydd i atal digartrefedd.

Hawl i dai digonol

Dylid mabwysiadu hawl i dai digonol fel yr egwyddor sy'n sail i gymorth i bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y gyfraith a'i chanllawiau ond bydd angen mesurau ymarferol ar y cyd â'r hawl, er enghraifft drwy adeiladu digon o dai cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n ennill incwm isel. Mae un astudiaeth o anghenion tai cymdeithasol yng Nghymru yn amcangyfrif y bydd angen 4,000 o dai cymdeithasol newydd ychwanegol bob blwyddyn am 15 mlynedd er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad a diwallu anghenion.⁴⁹

Mae angen gwasanaethau cymorth i ymestyn a diogelu'r hawl i dai digonol, yn ogystal â thai sy'n wirioneddol fforddiadwy. Nododd Argymhelliad 2 y rhwystrau presennol i gefnogi pobl sy'n cymryd cyffuriau yn rhannol oherwydd y gyfraith. Mae'r ffordd y caiff deddfwriaeth ynglŷn â chyffuriau ei phlisma yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n cysgu allan ac sy'n agored i niwed mewn ffyrdd eraill.⁵⁰ Mae data hefyd yn awgrymu bod 1 o bob 10 o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau yn cael eu derbyn i'r ysbyty bob blwyddyn ledled y DU o ganlyniad i niwed a achosir gan yr amodau anniogel ar y stryd. Gall hyn gael effaith sylweddol a cheir

⁴⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.40

⁴⁹ Bramley, G. (2018) *Housing supply requirements across Great Britain: for low-income households and homeless people*. Llundain: Crisis a'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol

⁵⁰ Gweler y dystiolaeth gan yr Enhanced Harm Reduction Group for Wales (2018):

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-enhanced-harm-reduction-group-for-wales.pdf>

risg o farwolaeth neu anafiadau sy'n newid bywyd neu dorri rhannau o'r corff i ffwrdd oherwydd heintiau.⁵¹

Ceir ymyriadau polisi y profwyd eu bod yn gweithio i bobl sydd â'r anghenion cymorth hyn ac yn diwallu'r angen dynol sylfaenol am dai a chymorth. Yn ôl y dystiolaeth mae Tai yn Gyntaf wedi bod yn hynod effeithiol o ran cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n defnyddio sylweddau neu bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.⁵² Er gwaethaf y cynnydd gweladwy yn nifer y bobl y gallai fod angen y cymorth hwn arnynt, mae amcangyfrifon yn awgrymu bod y nifer cyffredinol yn gymharol fach (tua 600 o bobl a fyddai'n cael budd o gymorth Tai yn Gyntaf ledled Cymru).⁵³

Argymhelliad 10

Dylid dileu'r rhwystrau a mynd i'r afael â'r camddealltwriaethau sy'n atal pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n cysgu allan rhag cael gafael ar yr angen dynol sylfaenol am dai digonol a chymorth.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ar y cyd ag awdurdodau lleol mewn ardaloedd â ffocws, adolygu'n gyflym y gwersi a ddysgwyd o unrhyw ymgais i lacio ar reoliadau a chyfreithiau yn y byrdymor y cyfeirir ati yn Argymhelliad 2.
- Cael gwared ar gysyniadau ac ymarfer 'yn fwriadol ddigartref' a 'dim cysylltiad lleol' er mwyn sicrhau mai atal neu leddfu cysgu allan yw'r ystyriaeth bennaf. Sefydlu 'egwyddor hunangyflwyno', lle mae awdurdodau lleol yn ariannu dinasyddion digartref mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill os ydynt yn gofyn am gymorth yno, yn gyntaf yng Nghymru ac wedyn gyda gweddill y DU.⁵⁴ Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol o blaid hyn pan gafodd ei argymhell gan un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.⁵⁵
- Cael gwared ar gysyniad ac ymarfer angen blaenoriaethol gan ddefnyddio'r opsiynau a nodir yn yr adolygiad arfaethedig o angen blaenoriaethol. Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gael gwared ar angen blaenoriaethol yn raddol, law yn llaw â sicrhau mai ailgartrefu'n gyflym yw'r dull arferol a ddefnyddir a hefyd ddiwallu'r angen am gyflenwad ychwanegol o dai cymdeithasol. Tra bydd yn cael gwared ar angen blaenoriaethol yn raddol, yn y byrdymor, dylai pobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan gael eu hystyried yn awtomatig fel angen blaenoriaethol yn ogystal â phobl sy'n gadael y carchar. Mae hwn yn newid a gefnogwyd ar y cyfan gan ymchwiliad trawsbleidiol pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol i gysgu allan.⁵⁶
- Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol i ymchwilio i Driniaeth â Chymorth

⁵¹ Public Health England (2018), Health Protection Scotland, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd (Gogledd Iwerddon) Shooting Up: Infections among people who inject drugs, 2017 – diweddariad Tachwedd 2018

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/756502/Shooting_up_2018.pdf

⁵² Mackie, P., Johnsen, S., a Wood, J. (2017) *Ending rough sleeping: what works? An international evidence review*. Crisis: Llundain, t.xii

⁵³ Blood, I., Goldup, M., Peter, L. a Dulson, S. (2018) *Implementing Housing First across England, Scotland and Wales*. Imogen Blood & Associates. Llundain: Crisis a Homeless Link, t.21

⁵⁴ Mackie, P. a Thomas, I. (2016) *Transitory single homelessness in Wales*

⁵⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.27

⁵⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.27

Heroin a darparu rhagor o Gyfleusterau Lleihau Niwed Ychwanegol (a elwir hefyd yn 'ystafelloedd cymryd cyffuriau o dan oruchwyliaeth').⁵⁷

- Ystyried y cynnydd yn erbyn Argymhelliad 7 ('dim drws anghywir' i gael gafael ar gymorth) a'r achos dros osod dyletswydd i atgyfeirio/cydweithredu ar gyff cyhoeddus ehangach er mwyn atal digartrefedd a chydweithredu â gwaith atal/lleddfu.
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r cyflenwad o dai addas o ansawdd da, a'u dyrannu, er mwyn diwallu anghenion, gan gynnwys tai a ddarperir o dan y cytundeb y cyfeirir ato yn Argymhelliad 9.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff dull 'Dim Noson Gyntaf Allan' ei fabwysiadu, gan weithio gyda phob corff cyhoeddus i sicrhau nad oes neb sy'n wynebu risg o gysgu allan yn cysgu allan mewn gwirionedd. Unwaith y caiff y risg ei nodi, yna mae'n rhaid mai'r ymateb amlasiantaethol yw atal cysgu allan rhag digwydd drwy gynnig dewis amgen digonol a'r cymorth wedyn i ddiwallu anghenion tai ac anghenion eraill.

Comisiynu gwasanaethau i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan

Yn yr ymgynghoriad â phobl sy'n gweithio mewn rolau tai a digartrefedd, clywsom mai cyllid tymor hwy yw un o'r blaenoriaethau amlwg ynghyd â chynyddu'r cyflenwad o lety a gwell llwybrau atgyfeirio gyda gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai.⁵⁸

Mae angen i waith comisiynu, ac felly gyllido, fod ar sail strategol estynedig a hirdymor (e.e. er mwyn sicrhau 'dim noson gyntaf allan' a dulliau ailgartrefu'n gyflym) yn hytrach na hyrwyddo cynigion byrdymor a chanlyniadau byrdymor. Gall Llywodraeth Cymru roi arweiniad cryf o ran sicrhau hyn drwy ddefnyddio comisiynu yn y tymor hwy wedi'i arwain gan strategaeth i roi terfyn ar ddigartrefedd er mwyn helpu partneriaid i gynllunio a chyflawni yn erbyn y nod hwn a recriwtio a chadw staff o safon uchel.

Mae angen i sefydliadau sy'n cael eu comisiynu gael eu helpu i roi cymorth seicolegol wybodus a chynaliadwy, gan gynnwys allgymorth grymusol, amrywiaeth o leoliadau llety argyfwng priodol, a chyd-destun lle mai ateb arferol gwasanaethau digartrefedd yw ailgartrefu pobl yn gyflym mewn tai prif ffrwd parhaol a llety gyda'r lefel gywir o gymorth os oes ei angen.

Mae angen i'r broses gomisiynu hyrwyddo gweithio amlasiantaethol a chydgyssylltiedig gydag atebion tai a digartrefedd yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag iechyd, cyfiawnder, iechyd meddwl, cam-drin domestig, a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Mae angen gwneud rhagor o waith i ganfod pa gamau yn union sydd eu hangen i wneud hyn ond mae'n debygol o gynnwys cynlluniau strategol sy'n seiliedig ar le ar gyfer rhoi terfyn ar ddigartrefedd fel modd i sicrhau cyllidebau ar y cyd sy'n galluogi comisiynu ar y cyd. Bydd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn ystyried y cwestiwn hwn yn fanylach mewn adroddiad diweddarach.

⁵⁷ Gweler tystiolaeth Enhanced Harm Reduction Group for Wales (2018),

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-enhanced-harm-reduction-group-for-wales.pdf>

⁵⁸ Y bedwaredd flaenoriaeth uchaf oedd 'Cynnodau cyllido hwy ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru a/neu awdurdodau lleol' gydag 80 y cant o'r ymatebwyr yn dweud bod hyn bwysig iawn a 18 y cant yn dweud ei fod yn bwysig.

Dylai sefydliadau comisiynu gael eu dwyn i gyfrif am y canlyniadau hirdymor cywir, wedi'u hintegreiddio â mesurau eraill i fynd i'r afael â thlodi, anghydraddoldeb a chyni eithafol. Dylai hyn weithredu o dan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ran digartrefedd a chysgu allan yn benodol, dylai'r canlyniadau gynnwys lleihad cyson yn nifer y bobl sy'n cysgu allan nes ei ddileu'n gyfan gwbl, a lleihau mathau eraill o ddigartrefedd, megis cysgu ar soffâ rhywun ac aros mewn hosteli.

Argymhelliad 11

Dylid comisiynu gwasanaethau allgymorth a gwasanaethau eraill i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan er mwyn hyrwyddo atebion estynedig sy'n helpu pobl i ddianc rhag cysgu allan a digartrefedd am byth.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Nodi disgwyliad y bydd pob gwasanaeth cyhoeddus yn dod yn amgylchedd seicolegol wybodus a dod o hyd i ffyrdd o annog hyn drwy gomisiynu ym maes gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Dylai hyn fod yn rhan o waith byrddau rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
- Ystyried pennu cyllidebau dangosol am gyfnod o 3 neu 5 mlynedd ar gyfer y Grant Cymorth Tai er mwyn galluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynllunio'n strategol i leihau a rhoi terfyn ar gysgu allan yn unol â'r argymhellion hyn.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Gweithio gyda modelau amlasiantaethol presennol (megis y Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol) er mwyn cysylltu â gwasanaethau eraill.
- Fel rhan o drefniadau'r Grant Cymorth Tai, ystyried rhwydwaith o gomisiynwyr i gynnig cymorth a chynghor gan gymheiriaid a rhannu arfer da.
- Cael gwared yn raddol ar derfynau amser ar wasanaethau i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan. Yn fwy cyffredinol, sicrhau bod eu prosesau a'u harferion comisiynu yn ei gwneud yn bosibl i sefydliadau gael yr adnoddau a'r hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau seicolegol wybodus, gan gynnwys yr amser i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl sy'n ddigartref a'r arian i fuddsoddi er mwyn rhoi cymorth i'r staff sy'n darparu gwasanaethau.

Data ar gysgu allan

Mae dau fath cyffredinol o ddata ar gysgu allan – a mathau ehangach o ddigartrefedd – sy'n arbennig o werthfawr. O safbwynt llywodraethau, comisiynwyr a llunwyr polisïau mae angen data cyfanredol ar yr hyn sy'n gweithio, e.e. pa ymyriadau sy'n arbennig o effeithiol, er mwyn deall yn well y problemau a'r atebion ym maes digartrefedd, ac olrhain cynnydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol tuag at nodau polisi. O safbwynt gwasanaethau a gweithwyr unigol mae hefyd angen data mwy uniongyrchol ar achosion, felly pan fyddant yn dod ar draws rhywun sy'n cysgu allan, gallant gael gafael ar ddata dibynadwy a defnyddiol am yr unigolyn a'i hanes.

Nid yw data Cymru yn diwallu'r naill angen na'r llall ar hyn o bryd. Mae'r cyfrif cenedlaethol o gysgu allan ond yn cynnig cipolwg ar dueddiadau cyffredinol ar adeg benodol ac mae'n debygol o dangyfrif y niferoedd gwirioneddol sy'n cysgu allan, rhywbeth a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru.⁵⁹ Mae data awdurdodau lleol ar ddigartrefedd ond yn rhoi rhan o'r darlun, o ystyried eu bod ond yn rhoi gwybodaeth am aelwydydd sy'n defnyddio'r system gymorth ar adegau penodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella hyn, gan gynnwys ystyried data ar lefel yr unigolyn a chyflwyno'r Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd.

Mae'r Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd yn gyfle i fynd ymhellach na'r ddarpariaeth bresennol mewn manau eraill (megis system CHAIN yn Llundain), er enghraifft, cysylltu pobl sy'n cysgu allan â data statudol fel y bydd darparwyr cymorth yn gwybod a oes rhywun wedi bod mewn cysylltiad ag awdurdod lleol o'r blaen a chynnwys ffynonellau ehangach o wybodaeth, nid dim ond data gan wasanaethau a gomisiynwyd. Mae arfarniad diweddar o opsiynau gan Ganolfan Effaith Digartrefedd Llywodraeth yr Alban yn ddeunydd cyfeirio defnyddiol ar gyfer yr argymhellion hyn.⁶⁰

Argymhelliad 12

Mae angen i fetrigau cenedlaethol a lleol a phrosesau casglu data gael eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi'r uchelgais i ddileu cysgu allan yn gyfan gwbl ac atal digartrefedd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

Dylai hyn gefnogi anghenion ar gyfer mesur nifer y bobl sy'n cysgu allan mewn amser real, drwy roi modd i dimau allgymorth ac eraill gofnodi achosion o gysgu allan a manylion rheoli achos yn effeithiol. Gallai'r gwaith diweddar ar y Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd ledled Cymru fod yn sail i hyn. Mae angen gwerthuso'r cynnydd hyd yma.

Yn ogystal â rhoi'r Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd ar waith ar y cyd â phartneriaid, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried dichonoldeb casglu data ar unigolion a'u cysylltu â data y rhwydwaith er mwyn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut mae pobl yn profi gwahanol fathau o ddigartrefedd a gwella gwaith atal.

⁵⁹ Llywodraeth Cymru (2019), *Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan, Tachwedd 2018*. Cyhoeddwyd 5 Chwefror 2019, Datganiad Ystadegol Cyntaf 8/2019.

⁶⁰ Russell, D. a Thomas, I. (2019) *Better Data, Better Results - an options appraisal for a national data and monitoring system for street homelessness in Scotland*. Llywodraeth yr Alban a'r Ganolfan Effaith Digartrefedd

